

Cyngor Sir Penfro

Awrddod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfr

Cynllun Gwelliant Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro 2018-2028

Tachwedd 2018

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Benfro

Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Crynodeb Gweithredol

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Benfro 2018-2028

Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn bwysig i Sir Benfro gan eu bod yn galluogi mynediad a chysylltedd o fewn a rhwng ardaloedd gwledig a threfol a'i gilydd. Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTCau) yn briffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gydag arian cyhoeddus. O dan Ddeddf Priffyrdd 1980 mae gan Gyngor Sir Penfro (CSP), fel Awdurdod Priffyrdd, ddyletswydd statudol i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus, sy'n rhwydwaith mawr o dros 2,600 km ledled y sir. Yn y Parc Cenedlaethol, mae rheolaeth y rhan fwyaf o'r rhwydwaith HTCau wedi'i ddirprwyo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP). O dan y cytundeb dirprwyo, mae APCAP yn gweithredu fel Asiant ar gyfer CSP ac yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynnal a chadw elfen wledig y rhwydwaith HTCau sydd tua 770km.

Y dosbarthiad mwyaf cyffredin o hawliau tramwy cyhoeddus yw llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau. Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn amrywio'n fawr o ran eu cymeriad a'u defnydd ac o lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo, megis Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Penfro a Llwybr Landsker i "llwybrau plwyf" sy'n darparu llawer o gyfleoedd cerdded mewn cymunedau lleol a llwybrau trefol sy'n darparu mynediad, sydd heb fod at bwrpas hamdden, mewn trefi. Bydd isafswm safon cynnal a chadw pob math o HTCau yn dibynnu ar yr hawl mynediad cyhoeddus a bennir gan ei ddosbarthiad. Felly, dylid cynnal llwybrau troed i safon sy'n briodol ar gyfer defnydd cerddwyr, llwybrau ceffylau ar gyfer marchogaeth arnynt a chilffyrdd ar gyfer defnydd gan gerbydau'n achlysurol.

Mae Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi paratoi ail Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT2) ar y cyd. Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT), sef eu prif ffordd o nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'w rhwydwaith hawliau tramwy lleol. Mae'r CGHT felly'n anelu at wella'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus er mwyn diwallu anghenion cerddwyr, beicwyr, marchogion a phobl anabl, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Paratowyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (LIC) ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Awdurdodau Lleol gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2016, ac mae'n cynnwys sylwadau'n deillio o ymgynghori â rhanddeiliaid ac adolygiad o ymchwil berthnasol. Mae dwy brif elfen i'r Cynllun; yr Asesiad a'r Datganiad Gweithredu ar gyfer rheoli a gwelliant strategol hawliau tramwy cyhoeddus.

Dangosodd yr adolygiad o weithrediad y CGHT gwreiddiol (2008-18) fod y Cynllun wedi llwyddo i lywio ystod eang o welliannau hawliau tramwy cyhoeddus, sydd yn eu tro wedi cyfrannu at iechyd a llesiant cymunedau Sir Benfro a'r boblogaeth yn ehangach, yn ogystal â helpu i gefnogi'r economi leol. Mae'n amlwg bod y gyfran o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a gynhelir wedi cynyddu'n sylweddol dros ddeng mlynedd y Cynllun.

Prif flaenoriaethau'r CGHT newydd fydd sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn parhau i gael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod gwelliannau strategol yn cael

eu gwneud pan fo cyllid ar gael. Gan fod darpariaeth resymol o lwybrau cyhoeddus bellach yn bodoli yn y sir, mae lle i wneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ar gyfer mynediad i gefn gwlad a ddaw yn sgil yr hawliau tramwy cyhoeddus hynny. Felly, er mwyn cynyddu lefelau cyfranogaeth, mae hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus hefyd yn cael blaenoriaeth.

Bydd gweithredu'r Cynllun yn dibynnu i raddau helaeth ar yr adnoddau sydd ar gael, o ran staff a chyllidebau, a bydd mwy o weithio mewn partneriaeth ynghyd ag argaeledd ffynonellau ariannu allanol yn hanfodol ar gyfer cyflawni amcanion y Cynllun.

Crynodeb

Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro 2007 i 2017 wedi cael ei adolygu a phenderfynwyd diwygio'r cynllun fel sy'n ofynnol gan adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CRoW). Cyhoeddwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf fis Gorffennaf 2008 a bydd ei gyfnod o 10 mlynedd yn dod i ben fis Gorffennaf 2018. Er mwyn eglurder, cyfeirir ato fel y CGHT. Cyfeirir at y cynllun wedi'i ddiweddarau fel CGHT2. Teitl newydd y ddogfen fydd 'Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro, 2018 i 2028'.

Mae Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cytuno i baratoi'r ail Gynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro (CGHT) ar y cyd, a bydd yn weithredol 2018. Mae'r cynllun hwn yn nodi, blaenoriaethu ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy yn Sir Benfro. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i wella cyfleoedd mynediad i grwpiau gydag anableddau.

Asesiad o hawliau tramwy lleol yw Rhan 1 y cynllun. Mae'n nodi prif nodweddion y rhwydwaith yn Sir Benfro; yn esbonio pwrpas y CGHT2; yn amlinellu'r gwaith cefndir a wnaethpwyd; yn crynhoi'r ymgynghoriad cychwynnol ac yn archwilio nifer o bynciau allweddol, gan gynnwys:

- I ba raddau y mae'r rhwydwaith yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd ac yn debygol o gwrdd ag anghenion defnyddwyr yn y dyfodol;
- Gallu'r rhwydwaith i gwrdd â gofynion pobl gydag anableddau; a
- Rôl hawliau tramwy o ran darparu cyfleoedd ar gyfer mynediad cyhoeddus a chyfleoedd hamdden yng nghefn gwlad

Datganiad gweithredu a chynllun cyflawni yw Rhan 2 y cynllun. Mae'r adran hon yn trafod heriau rheoli, cynnal a gwella'r rhwydwaith, ac yn amlinellu'r amcanion a luniwyd o'r asesiadau a wnaed yn Rhan 1.

Yn wahanol i'r CGHT gwreiddiol, bydd monitro'r cynllun yn rhan o'r cynllun cyflawni newydd. Bydd hwn ar ffurf adroddiad blynyddol o gyflawniadau'r cynllun cyflwyno blaenorol, adolygiad o bolisi HTCau a chynllun gwaith CAMPUS ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Gwybodaeth am y wefan

Gellir gweld y cynllun hwn a'i lawrlwytho o wefannau'r ddau awdurdod:

Gellir gweld y Map Diffiniol [yma](#) hefyd.

Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	1
	Crynodeb	2
	Gwybodaeth am y wefan	2
	Cynnwys	3-4
Rhan 1	Asesiad o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Benfro	
1.1	Cyflwyniad	5
1.2	Nodweddion y rhwydwaith hawliau tramwy yn Sir Benfro	6
1.3	Beth yw pwrpas y cynllun hwn?	8
1.4	Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn?	8
1.5	Gyda phwy yr ydym wedi ymgynghori?	9
1.6	Pwy sy'n defnyddio'r rhwydwaith ar hyn o bryd ac a yw'r defnyddwyr yn debygol o newid yn y dyfodol?	10
1.7	Pwy yw rhanddeiliaid y rhwydwaith?	10
1.8	I ba raddau mae'r rhwydwaith yn diwallu anghenion defnyddwyr presennol y rhwydwaith? A yw'n debygol o ddiwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol?	11
1.9	Pa asesiadau sydd wedi'u cynnal?	11
1.9.1	- Deddfwriaeth	12
1.9.2	- Cynlluniau/Strategaethau	13
1.9.3	- Cyflwr ffisegol y rhwydwaith (Arolwg llawn APCAP)	14
1.9.4	- Sefyllfa gyfreithiol y rhwydwaith	15
1.9.5	- Adolygiad o'r CGHT blaenorol	17
1.9.6	- Ymchwil perthnasol (gan gynnwys Arolwg Defnyddwyr APCAP)	18
1.9.7	- Ymgynghoriad y FfMLI	22
1.9.8	- Cyfarfod â Swyddog Mynediad CSP ac Ysgrifennydd Grŵp Mynediad Sir Benfro	23
1.9.9	- Adborth a sylwadau rhanddeiliaid o'r ymgynghoriad cychwynnol	24
1.9.10	- Ymgynghoriad Cyhoeddus ar CGHT Drafft	25
1.9.11	- Asesiad Effaith Integredig	25
1.9.12	- Asesiad Amgylcheddol Strategol	25

Rhan 2	Datganiad Gweithredu	
2.1	Beth yw'r prif heriau i'r Awdurdodau wrth iddynt reoli a gwella'r rhwydwaith?	26
2.2	Amcanion ar gyfer cynllun gweithredu CGHT2	28
2.3	Rhestr o gamau gweithredu ar gyfer pob amcan:	29
2.3.1	Amcan A - i gynnal rhwydwaith hygyrch o lwybrau cyhoeddus	29
2.3.2	Amcan B – i ddarparu rhwydwaith mwy cysylltiedig sy'n diwallu gofynion y defnyddwyr i gyd	30
2.3.3	Amcan C - i weithio gydag adran priffyrdd ac adeiladu CSP er mwyn datblygu rhwydwaith mwy diogel o lwybrau mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd;	31
2.3.4	Amcan D - i wella gweithdrefnau cyfreithiol ar gyfer cofnodi, diogelu a newid HTCau	31
2.3.5	Amcan E - i sicrhau mwy o gyfranogiad gan y gymuned, grwpiau defnyddwyr a gwirfoddolwyr wrth wella a rheoli llwybrau cyhoeddus.	31
2.3.6	Amcan F - i hyrwyddo a darparu gwybodaeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o'r cyfleoedd mynediad i gefn gwlad a ddarperir gan lwybrau cyhoeddus a thir mynediad.	32
2.4	Cynllun Cyflawni'r CGHT	33
	Geirfa	35
	Atodiadau	
A	Rhestr o Aseidiadau CGHT a Dogfennau Cefndirol	36
B	Amcanion CGHT1	37

Rhan 1 Asesiad o Hawliau Tramwy Lleol

1.1 Cyflwyniad

- 1.1.1 Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus (HTCau) yn Sir Benfro yn darparu cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau cefn gwlad ar droed, ar feic, ar gefn cheffyl ac mewn cadair olwyn. Mae cyfran fechan o'r llwybrau hefyd ar gael i ddefnyddwyr cerbydau modur ac i yrwyr car a cheffyl.
- 1.1.2 Mae'r rhwydwaith o lwybrau hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r diwydiant twristiaeth ac ansawdd bywyd trigolion, gan ddod â manteision economaidd a chymdeithasol sylweddol. Yn ogystal, mae'n cymell pobl i wneud ymarfer corff, a all wella eu hiechyd a'u llesiant.
- 1.1.3 Mae Cyngor Sir Penfro (CSP) yn ei rôl fel Awdurdod Priffyrdd Lleol yn gyfrifol am hawliau tramwy yn y Sir. Yn ardal y Parc Cenedlaethol, mae rhai o'r cyfrifoldebau hyn, yn arbennig ar gyfer cynnal a chadw, wedi eu dirprwyo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP). Mae gan APCAP hefyd bwerau cydamserol ar rai materion (megis dargyfeiriadau a chreu) ac APCAP yw'r awdurdod sy'n rheoli Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Penfro ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
- 1.1.4 Mae CSP ac APCAP fel ei gilydd yn gwneud cyfraniadau pwysig i gynnal a gwella hawliau tramwy yn y Sir. Felly, fe gytunwyd i baratoi'r ail Gynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro (CGHT2) ar y cyd, yn unol â darpariaethau adran 61 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CRoW) a'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) fis Gorffennaf 2016.

1.2 Nodweddion y rhwydwaith hawliau tramwy yn Sir Benfro

Ar hyn o bryd mae'r rhwydwaith yn 2612.7 km (1623.1 milltir) o hyd. Mae'r rhwydwaith wedi'i rannu fel hyn:

Math o lwybr	Sir Benfro (pob llwybr)	HTCau yn y Parc Cenedlaethol	HTCau yng Nghyngor Sir Penfro
Llwybrau troed	2080.5 km 79.6% o'r rhwydwaith	831.5 km	1249 km
Llwybrau ceffylau	506.7 km 19.4% o'r rhwydwaith	187 km	319.7 km
Cilffyrdd Cyfyngedig (Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus gynt)	4.1 km 0.2% o'r rhwydwaith	2.6 km	1.5 km
Cilffyrdd ar Agor i Bob Traffig (CABT)	21.4 km 0.8% o'r rhwydwaith	9.8 km	11.6 km

1.2.1 Rhoddir disgrifiad byr o'r 'hawliau tramwy' sy'n ymwneud â'r gwahanol fathau o lwybrau yng Ngeirfa'r cynllun hwn (tudalen 35).

Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro

1.2.2 Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cyfrif am 260km (86% o gyfanswm hyd) Llwybr yr Arfordir. Mae Llwybr yr Arfordir yn un o 15 o Lwybrau Cenedlaethol dynodedig yn y DU. Mae'n atyniad mawr, sy'n cynnig cyfleoedd cerdded pellter hir ar hyd arfordir Sir Benfro. Mae'n cysylltu dwsinau o gymunedau ar hyd yr arfordir ac yn darparu mynediad i dros 80 o gildraethau a thraethau. Mae wedi'i integreiddio'n dda â'r rhwydwaith gysylltiol o hawliau tramwy cyhoeddus i ddarparu amrywiaeth eang o deithiau cerdded cylchol.

1.2.3 Mae yna hefyd rwydwaith o lwybrau defnydd a rennir (SUP), oddi ar y ffordd yn y Sir ar gyfer beicwyr, cerdded a phobl anabl, sydd wedi datblygu'n gyflym yn ystod cyfnod y CGHT cyntaf. Mae'r llwybrau hyn yn perthyn i gategori eu hunain ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau a restrir yn yr eirfa. Mae rhai rhannau o'r rhwydwaith o lwybrau defnydd a rennir hwn yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Mae'r cynnydd yn hyd y llwybrau defnydd a rennir hyn wedi bod yn sylweddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf a chaiff ei atgyfnerthu ymhellach gan ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru; sef Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r llwybrau hyn yn gwella diogelwch a chysylltedd y rhwydwaith HTCau gan fod defnyddwyr yn gallu gadael y llwybrau ac ymuno â'r llwybrau defnydd a rennir yn hytrach na'r briffordd neu'r llain werdd ar ymyl y briffordd.

1.2.4 Yn ogystal â HTCau a llwybrau defnydd a rennir ar gyfer beicwyr a cherddwyr, mae yna hefyd lawer o lwybrau caniataol yn Sir Benfro. Mae dau fath o'r rhain. Mae'r cyntaf yn digwydd pan fo tiffeddiannwr yn cytuno i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio llwybr diffiniedig, nad yw'n HTC. Yr ail yw lle mae tiffeddiannwr yn

caniatáu gweithredu hawliau uwch ar hyd HTC na'r rhai sy'n cael eu priodoli i'r llwybr yn gyfreithiol. Crëwyd rhai llwybrau caniatool yn ddiweddar trwy gynllun Glastir.

- 1.2.5 Mae yna werth amlwg i lawer o lwybrau caniatool gan eu bod yn darparu cysylltiadau a llwybrau cylch ychwanegol. Yn y Parc Cenedlaethol (PC) mae 117 km o lwybrau caniatool sef 10% o'r rhwydwaith HTCau. Fodd bynnag, yn absenoldeb cytundeb cyfreithiol sy'n rhwymo, gellir diddymu'r caniatâd ar unrhyw adeg. Oherwydd hyn, mae'r Awdurdodau yn credu, yn gyffredinol, ei bod yn ddymunol integreiddio llwybrau o'r fath i mewn i'r rhwydwaith HTCau ac yn y tymor hir geisio dynodi llwybrau caniatool o'r fath yn HTCau.
- 1.2.6 Mae rhai hawliau tramwy cyhoeddus sydd heb gael eu cofnodi. Gall y rhain fod yn llwybrau hanesyddol sydd erioed wedi'u cofrestru a gyfeirir atynt yn aml fel 'ffyrdd coll'. Mae eraill yn fwy diweddar, sydd wedi eu creu drwy eu defnyddio. Pan gaiff y rhain eu hadnabod, gellir eu hychwanegu at y Map a Datganiad Diffiniol gan ddefnyddio gweithdrefnau Gorchymyn Diwygio.
- 1.2.7 Cyflwynodd Deddf CRoW (Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, 2000) hawl mynediad newydd ar droed i rai rhannau o gefn gwlad agored (yn bennaf ardaloedd a gaiff eu diffinio fel mynydd-dir/rhostir/gweundir/twyndir) ac i Dir Comin a gofrestrwyd o dan y Ddeddf briodol. Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu galw'n 'Dir Mynediad'. Mae CNC yn cynnal y mapiau sy'n dangos tir o'r fath ac mae'r wybodaeth bellach yn cael ei chyhoeddi gan yr Arolwg Ordnans hefyd.
- 1.2.8 Yn Sir Benfro, mae tua 4.3% o'r sir yn Dir Mynediad. Mae 15% o'r Tir Mynediad yn y rhan hynny o'r sir sydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a'r 85% sy'n weddill yn ardal y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy eisoes yn darparu mynediad i lawer o'r ardaloedd hyn. Pan fo wedi'i integreiddio â'r rhwydwaith HTCau, mae tir mynediad yn darparu cyfleoedd ychwanegol gwerthfawr ar gyfer cerdded yng nghefn gwlad.
- 1.2.9 Yn yr ardaloedd cefn gwlad, mae sefydliadau sy'n agor eu tir i'r cyhoedd megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a safleoedd eraill a reolir megis Parc Gwledig Scolton yn darparu cyfleoedd mynediad. Mae llawer o draethau'r sir hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored fel cerdded a marchogaeth. Yn wir, mae rhai rhannau o Lwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Penfro ar draethau.
- 1.2.10 Mewn ardaloedd gwledig mae isffyrdd a ffyrdd di-ddosbarth (UCR) yn darparu cysylltiadau defnyddiol ac ar adegau hanfodol, rhwng gwahanol rannau o'r rhwydwaith HTCau. Yn aml, (er nad yn ddieithriad) ychydig o draffig sydd arnynt a gyda rhywfaint o ofal gall cerddwyr, beicwyr a marchogion eu defnyddio'n ddiogel. Mae rhwydwaith helaeth o ffyrdd o'r fath yn Sir Benfro.

1.3 Beth yw pwrpas y cynllun hwn?

1.3.1 Mae CGHT2 yn nodi a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol, er budd defnyddwyr presennol y rhwydwaith a defnyddwyr posib yn y dyfodol. Mae hefyd yn ymdrin â'r angen i wella cyfleoedd mynediad i ddefnyddwyr anabl. Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio'n benodol at y deillion, rhai sydd â nam ar eu golwg a'r rhai sydd ag anawsterau symudedd. Mae'r Awdurdodau'n cydnabod bod angen ymestyn yr ystyriaeth hon i'r rhai hynny sydd ag anabledau eraill ac i rai sydd â phlant ifanc, ynghyd â theuluoedd, ffrindiau a gofalwyr y bobl hyn. Mae'r cynllun hefyd yn ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ynghyd â dyheadau mwy cyffredinol i ddatblygu rhwydwaith cynhwysol sy'n adlewyrchu egwyddor cydraddoldeb.

1.3.2 Gall CGHT2 helpu i gyflawni gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy. Gall hyn, yn ei dro, ddarparu nifer o fanteision trawsbynciol megis:

- Gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd - gall rheoli rhagweithiol a hyrwyddo HTCau a thir mynediad gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant cymunedau lleol. Gall cerdded yn rheolaidd helpu i wrthsefyll clefyd y galon a gordewdra'n arbennig yn ogystal â bod yn lles o ran iechyd meddwl. Mae'n hanfodol felly darparu dull hygyrch, plaserus o gadw'n heini sydd ar gael yn rhad ac am ddim;
- Buddion economaidd - Mae HTCau yn ysgogwr economaidd pwysig i'r sector twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru, ac mae Llwybr yr Arfordir yn atyniad mawr ynddo'i hun. Cerdded ar HTCau yng nghefn gwlad er mwyn hamdden yw'r gweithgaredd ymwelwyr mwyaf amlwg o bell ffordd, boed hynny'n eilbeth neu'n brif bwrpas yr ymweliad. Mae HTCau yn darparu seilwaith hanfodol ar gyfer mynediad i, a mwynhad o, arfordir, cefn gwlad, tirweddau a threftadaeth safonol Sir Benfro;
- Trafnidiaeth gynaliadwy - Cychwynnodd HTCau fel rhan o'r rhwydwaith cyfathrebu gwledig. Maent yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth sy'n rhoi dewis heblaw am deithio â modur a gan eu bod yn garbon niwtral yn gyffredinol maent yn darparu dulliau cludiant cynaliadwy iawn;
- Bioamrywiaeth - Oherwydd eu lleoliad, mae yna'n aml fanteision i fioamrywiaeth. Gall HTCau gyfrannu at gysylltedd ecolegol gan fod hawliau tramwy'n goridorau gwyrdd o fewn y tirlun. Gallant greu ac amddiffyn cynefinoedd a darparu llwybrau llinol ar gyfer rhywogaethau.

1.4 Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn?

Cyhoeddodd ac ymgynghorodd yr Awdurdodau ar 'Amserlen CGHT' a 'Chylch Gorchwyl' wrth ddechrau paratoi'r cynllun. Anfonwyd llythyr gyda'r dogfennau hyn yn esbonio'r broses ac yn gofyn i randdeiliaid pa welliannau yr hoffent eu gweld yn cael eu blaenoriaethu yn y dyfodol. Mae'r adborth o'r dogfennau ymgynghorol cychwynnol ynghyd ag adolygiad o'r CGHT blaenorol wedi llywio'r

cynigion ar gyfer yr ail gynllun. Ymgynghorwyd â'r Fforwm Mynediad Lleol yn ystod pob cam o'r broses.

1.5 Gyda phwy yr ydym wedi ymgynghori?

1.5.1 Yn unol â'u dyletswydd statudol, ymgynghorodd yr Awdurdodau â'r canlynol cyn paratoi eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft:

- Pob awdurdod priffyrdd sydd â'i ardal yn taro ar ardal y CGHT;
- Pob Cyngor Tref a Chymuned sydd o fewn ardal y CGHT;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (sydd hefyd yn bartner sy'n paratoi'r cynllun ar y cyd â'r Cyngor Sir);
- Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro (FfMLI);
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC);
- Unrhyw bersonau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol drwy reoliadau'n eu rhagnodi mewn perthynas ag ardal yr awdurdod priffyrdd lleol; a
- Unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod priffyrdd lleol.

1.5.2 Cynghorir awdurdodau sy'n diwygio CGHTau hefyd i:

- Ymgynghori â sefydliadau a nodwyd fel ymgynghoreion ar gyfer Gorchmynion Hawliau Tramwy yn ardal y CGHT2; a
- Chynnwys Fforymau Mynediad Lleol wrth baratoi neu adolygu CGHTau, yn enwedig yr Asesiadau.

1.5.3 Roedd dau gyfnod allweddol yn ystod y broses ymgynghori ar CGHT2. Y cyntaf oedd yr ymgynghoriad cychwynnol a'r ail oedd yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft. Mae'r ymgynghoriad ar bob un o'r dogfennau hyn wedi bod yn fwy helaeth na'r gofynion sylfaenol statudol.

1.5.4 Defnyddir cronfa ddata fel sail ar gyfer cysylltu â a hysbysu'r rhai sydd â diddordeb yn y CGHT2 ac mae'n parhau i esblygu. Mae'n cynnwys 167 o gofnodion ar hyn o bryd.

1.5.5 Mae FfMLI Sir Benfro yn gorff statudol syn rhoi cyngor ar wella mynediad i gefn gwlad ar gyfer hamdden a phleser. Mae'r Fforwm wedi sefydlu Pwyllgor Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â'r cynllun wrth iddo ddatblygu a rhoi cyngor i'r Awdurdodau, yn ogystal â thrafod y cynllun mewn cyfarfodydd llawn chwarterol.

1.6 Pwy sy'n defnyddio'r rhwydwaith ar hyn o bryd ac a yw'r defnyddwyr yn debygol o newid yn y dyfodol?

- 1.6.1 Mae hawddfaint yn amrywio yn ôl y math o hawl tramwy. Felly, tra bo llwybrau troed ar gyfer cerddwyr yn unig, mae'r mathau eraill o lwybrau (y rhai sydd â 'hawliau uwch') ar gael i grwpiau ychwanegol o ddefnyddwyr, megis rhai sy'n marchogaeth ceffylau a beicwyr.
- 1.6.2 Cerdded yw'r prif weithgaredd hamdden ar y rhwydwaith ar hyn o bryd, yn rhannol oherwydd bod llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer y gweithgaredd hwn o ran hyd y llwybrau sydd ar gael ac yn rhannol oherwydd bod mwy o bobl yn ei ddewis o'i gymharu â mathau eraill o weithgaredd. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o farchogion a beicwyr yn defnyddio llwybrau sydd â 'hawliau uwch' (neu yn achos beicwyr, lwybrau sy'n benodol ar gyfer beicio), ac mae potensial i hyn gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol.
- 1.6.3 Mae mathau eraill o ddefnyddwyr yn llai cyffredin ar y rhwydwaith. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod llai ohonynt yn yr ardal ac yn rhannol oherwydd bod llai o lwybrau sy'n diwallu eu hanghenion ar gael. Mae enghreifftiau'n cynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn, gyrwyr car a cheffyl a defnyddwyr cerbydau modur oddi ar y ffordd.

1.7 Pwy yw rhanddeiliaid y rhwydwaith?

- 1.7.1 Yn gyntaf mae'r defnyddwyr hynny sy'n cynnwys preswylwyr ac ymwelwyr i'r Sir, ac mae rhai ohonynt wedi sefydlu grwpiau er mwyn hyrwyddo eu diddordebau penodol mewn perthynas â'r rhwydwaith. Mae enghreifftiau'n cynnwys dau grŵp o Gerddwyr Sir Benfro ('Pembrokeshire Ramblers'), y Pembrokeshire Bridleways and Byways Association a nifer cynyddol o grwpiau cerdded.
- 1.7.2 Yn ogystal â defnyddwyr y rhwydwaith, mae llawer o bobl a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'r rhain yn cynnwys tîrfeddianwyr, ffermwyr a thenantiaid amaethyddol, ynghyd â sefydliadau sydd â hawliau tramwy yn croesi eu tir, er enghraifft yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ymddiriedolaethau bywyd gwylt lleol, CNC, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Sir.
- 1.7.3 Mae'n hanfodol cynnwys unigolion, grwpiau defnyddwyr, sefydliadau a phartneriaethau wrth gynllunio a rheoli gwell rhwydwaith. Bydd yr Awdurdodau'n parhau i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.
- 1.7.4 Rhoddir dau faes sy'n haeddu sylw arbennig fel enghreifftiau lle mae perthynas agos â rhanddeiliaid yn arbennig o bwysig:
- Lle mae hawl tramwy yn croesi tir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol. Mewn achos fel hyn mae angen gofal arbennig, er mwyn lleihau unrhyw wrthdaro â gweithgaredd amaethyddol.

- Lle mae llwybr yn croesi tir sydd o werth arbennig ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwylt. Mae llawer o ardaloedd yn Sir Benfro sy'n bwysig yn hyn o beth a lle mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cadwraeth yn hanfodol.

1.8 I ba raddau mae'r rhwydwaith yn diwallu anghenion defnyddwyr presennol y rhwydwaith? A yw'n debygol o ddiwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol?

- 1.8.1 Mae Aseidiadau CGHT2 yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar y graddau y mae'r rhwydwaith presennol yn diwallu anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd. Fe ymddengys mai'r farn gyffredinol yw bod y rhwydwaith yn gwella yn Sir Benfro, a'i fod, ar y cyfan, yn diwallu anghenion defnyddwyr. Fodd bynnag, mae nifer o ardaloedd lle mae lle amlwg i wella ymhellach ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau o ddefnyddwyr unigol yn well mewn rhai lleoliadau nac eraill. Er enghraifft, fe ymddengys bod llai o gyfleoedd i farchogion o'i gymharu â cherddwyr. Canfyddiad pwysig arall yw nad yw rhai trigolion yn defnyddio'r rhwydwaith o gwbl, yn aml am nad ydynt yn cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n cael eu hwyluso gan y rhwydwaith a hynny oherwydd diffyg amser, ymwybyddiaeth, awydd neu broblemau gyda thrafnidiaeth.
- 1.8.2 Trafodir y pryderon a godwyd gan ddefnyddwyr yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Mae enghreifftiau'n cynnwys llwybrau sydd wedi'u rhwystro a gordyfu, yr awydd i weld llai o rwystrau (megis camfeydd), sbwriel a baw cŵn, llwybrau tyllog a mwdlyd, diffyg arwyddion, yr angen am ragor o wybodaeth ar-lein ac ar bapur, prinder llwybrau mewndirol, yr angen am ragor o lwybrau sy'n darparu ar gyfer hawliau uwch (megis marchogion a gyrwyr cerbydau) a'r angen am ragor o lwybrau sy'n addas ar gyfer pobl ag anableddau.
- 1.8.3 Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Awdurdodau'n awyddus i greu rhwydwaith mwy cynhwysol ac er mwyn cyflawni hyn bydd angen rhoi sylw arbennig i ehangu cyfleoedd i'r rhai hynny sydd ag anableddau a'u gofalwyr. Yn aml iawn, mae gwelliannau sy'n cael eu cyflawni er mwyn diwallu anghenion y defnyddwyr hyn yn fuddiol i holl ddefnyddwyr y rhwydwaith.
- 1.8.4 Ers y CGHT cyntaf, mae'r Map a Datganiad Diffiniol wedi'i ddiweddarau ac fe'i cyhoeddwyd yn 2012. Ariannwyd yr adolygiad yn rhannol gan y grant CGHT. Mae hyn yn caniatáu i'r Arolwg Ordnans gael gwybodaeth gyfoes i'w chofnodi ar eu mapiau, yn darparu gwell sail ar gyfer chwiliadau ac yn helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i HTCau.

1.9 Pa aseidiadau sydd wedi'u cynnal?

Cynhaliwyd aseidiadau ar y pynciau canlynol:

- 1.9.1 Deddfwriaeth
- 1.9.2 Cynlluniau/Strategaethau
- 1.9.3 Cyflwr ffisegol y rhwydwaith (Arolwg llawn PCAP)
- 1.9.4 Sefyllfa Gyfreithiol y Rhwydwaith
- 1.9.5 Adolygiad o'r CGHT blaenorol
- 1.9.6 Ymchwil perthnasol (yn cynnwys arolwg defnyddwyr PCAP)
- 1.9.7 Ymgynghoriad y FfMLI

- 1.9.8 Cyfarfod â Swyddog Mynediad CSP ac Ysgrifennydd Grŵp Mynediad Sir Benfro
- 1.9.9 Adborth a sylwadau o'r Ymgynghoriad Cychwynnol
- 1.9.10 Asesiad Effaith Integredig
- 1.9.11 Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.9.1 Deddfwriaeth

Ers 2007 bu nifer o newidiadau deddfwriaethol y bydd angen eu hystyried yn y datganiad gweithredu. Yn bennaf, y rhain yw:

- 1.9.1.1 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- 1.9.1.2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- 1.9.1.3 Deddf Cydraddoldeb 2010
- 1.9.1.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 1.9.1.1 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 fydd o bosibl yn cael yr effaith fwyaf ar y rhwydwaith HTCau gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i bob sir yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithio llesol sy'n cynnwys rhwydweithiau llwybrau troed a llwybrau beicio mewn trefi sydd â phoblogaeth o dros 2,000 o bobl. Mae deg aneddiad o'r fath yn Sir Benfro (gan gynnwys y rhai yn y PC). Er ei fod o fewn ardal weinyddol Sir Benfro, mae Llandudoch wedi'i gynnwys o fewn aneddiad Teithio Llesol Aberteifi.

Nod y Ddeddf yw gwella cysylltiadau llwybrau troed a beiciau i mewn ac allan o aneddiadau yn ogystal â rhwng rhannau o'r trefi a hynny at ddibenion teithio, er mwyn lleihau'r defnydd o drafnidiaeth modur. Ar hyn o brd mae canllawiau'n gofyn am wella llwybrau mewn aneddiadau yn unig. Er ei bod yn ymddangos mai ychydig o effaith a gaiff hyn ar y rhwydwaith HTCau, fe geir llawer o fanteision anuniongyrchol, megis HTCau sydd ar hyn o bryd yn dod i ben wrth lain werdd y briffordd a ellai elwa o lwybr troed neu lwybr beicio newydd a fyddai'n gwella diogelwch. Hefyd, mae HTCau sydd wedi'u hamsugno gan ardaloedd trefol y gellid eu huwchraddio er mwyn iddynt fod ar gael i feicwyr neu ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

- 1.9.1.2 Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn disodli'r dyletswyddau a osodwyd yn flaenorol gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, a elwir yn aml yn Ddeddf NERC. Ei nod yn gyffredinol yw gwella ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru gan ei gwneud yn wlad gydag economi werdd, garbon isel, sy'n barod i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yng nghyd-destun y rhwydwaith HTCau, golyga hyn y dylai unrhyw welliant neu ddargyfeiriad i lwybr ystyried effaith hynny ar fioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys y deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer dodrefn llwybrau, megis meinciau ac arwyddion i faterion cau llwybrau sy'n bodoli eisoes a chreu rhai newydd.

Byddai'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar CNC i greu datganiadau ardal a fyddai'n caniatáu i adnoddau Cymru gael eu rheoli mewn dull rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Cynhaliwyd tair astudiaeth beilot, gyda mwy o waith ymestyn hyn i weddill Cymru i ddechrau ddiwedd 2017. Ni all CGHT2

ystyried datganiadau ardal ar hyn o bryd, ond efallai y bydd yn bosibl eu hymgorffori mewn adolygiadau o'r CGHT yn y dyfodol.

1.9.1.3 Nod Deddf Cydraddoldeb 2010 ac is-ddeddfwriaeth Rheoliadau Cymru 2011, yw amddiffyn pobl rhag dioddef gwahaniaethu. O ran y rhwydwaith HTCau, mae hyn yn golygu gwella mynediad i'r llwybrau ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn gallu defnyddio'r llwybrau ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sydd â phroblemau gyda'u golwg a'u symudedd. Nid oedd y rhwydwaith HTCau gwreiddiol yn hygyrch i'r grwpiau defnyddwyr hyn, ac mae angen addasu mwy o lwybrau fel bod pawb yn gallu mwynhau HTCau.

1.9.1.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrrff cyhoeddus i ystyried dyfodol pobl yng Nghymru wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Sefydlodd y Ddeddf fyrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGC) ar gyfer cyhoeddi asesiadau llesiant ac, wrth symud ymlaen, ymdrechu i sicrhau gwelliannau o ran pedair elfen y ddeddf.

Crëwyd BGC yn Sir Benfro a gyhoeddodd yr asesiad ar gyfer y Sir fis Ebrill 2017. Cynhwyswyd y rhwydwaith HTCau yn yr adroddiad yng nghyd-destun manteision llesiant corfforol a meddyliol defnyddio'r rhwydwaith ar gyfer ymarfer corff a mwynhau natur.

1.9.2 Cynlluniau/Strategaethau

Mae cynnwys yr asesiad mewn cynlluniau a strategaethau perthnasol yn cwmpasu'r dogfennau allweddol canlynol:

1.9.2.1 Yr Asesiad Llesiant ar gyfer Sir Benfro

1.9.2.2 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9 Tachwedd 2016)

1.9.2.3 Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) y ddau awdurdod

1.9.2.4 Mentrau i Hyrwyddo Cerdded er Iechyd a Lles

1.9.2.5 Datganiadau Ardal

1.9.2.6 Lonydd Glas

1.9.2.1 Mae'r asesiad lles ar gyfer Sir Benfro wedi cynnwys y rhwydwaith HTCau oherwydd ei fanteision posibl i iechyd. O'r asesiad cychwynnol hwn, efallai y bydd cyfleoedd i gydweithredu gyda'r BGC er mwyn gwneud ceisiadau am gyllid i hyrwyddo'r rhwydwaith.

1.9.2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9 Tachwedd 2016) yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol 'geisio diogelu a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy fel adnodd amgylcheddol a hamdden'. Mae'r polisi hwn yn diogelu'r rhwydwaith a phan fydd angen dargyfeiriadau, bydd y swyddog hawliau tramwy cyhoeddus bob amser yn ceisio'r canlyniad gorau posibl. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol geisio ychwanegu manylion at Bolisi Cynllunio Cymru yn hytrach nac unrhyw ddyblygu.

1.9.2.3 Yn CSP mae'r CDLI yn cynnwys HTCau fel rhan o'r diffiniad o 'dir cyhoeddus'. Maen prawf 6 o Nodyn Canllaw 2 sy'n ymwneud â chynllunio cynaliadwy yw'r

polisi sydd ynghlwm â hyn ac, yn y cyd-destun hwn ag integreiddiad cynllunio cynaliadwy â'r tir cyhoeddus presennol. Bydd CSP yn adolygu'r CDLI yn 2018

Yn APCAP mae'r CDLI presennol yn ymgorffori HTCau o ran yr effaith gweledol y gallai datblygiad ei gael ar y rhwydwaith ym mholisi 15. Disgwylir i'r CDLI hwn gael ei ddisodli gan CDLI2 yn 2019, ond mae'r polisi i'w gyflwyno fel rhan o'r cynllun diwygiedig sy'n seiliedig ar y strategaeth a ffafrir (Mai 2017).

Yn ogystal, gall cytundebau Adran 106 alluogi gwelliannau i HTCau pan fo'r cyfle'n codi mewn perthynas â chais cynllunio.

1.9.2.4 Mentrau i Hyrwyddo Cerdded er Iechyd a Lles. Gan adeiladu ar lwyddiant menter Steps2Health, mae Dewch i Gerdded Sir Benfro a Walkability bellach yn annog cerdded a defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus fel gweithgaredd cymdeithasol ac iach i bawb. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â diffyg ymarfer corff rhai preswylwyr ac yn gwella eu iechyd a'u lles cyffredinol.

1.9.2.5 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i baratoi a chyhoeddi datganiadau ("Datganiadau Ardal") ar gyfer y rhannau o Gymru y mae'n eu hystyried yn briodol at ddiben hwyluso gweithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Mae Datganiadau Ardal yn rhoi sail dystiolaeth integredig a chydlynol i CNC ac eraill gymryd camau priodol mewn modd sy'n hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar lefel leol; gan alluogi'r camau gweithredu cydgysylltiedig ar y cyd, a'r datrysiadau arloesol newydd sydd eu hangen er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddant yn galluogi CNC i gynllunio gweithgareddau o fewn ardal, i resymoli gweithgareddau, ac i weithio gyda rhanddeiliaid eraill a phartion sydd â diddordeb. Mae CNC wrthi'n paratoi Datganiad Ardal ar gyfer rhanbarth y De-orllewin ar hyn o bryd. Ar ôl ei gyhoeddi, gall CNC ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch blaenoriaethau;r Datganiad Ardal a sut maent yn berthnasol i'r CGHT a'i gynlluniau cyflawni.

1.9.2.6 Partneriaeth sefydledig o sefydliadau yw Lonydd Glas Sir Benfro, sy'n gweithio i annog trigolion lleol ac ymwelwyr o bob gallu i gael mynediad i'r arfordir a chefn gwlad drwy ddulliau cynaliadwy o deithio drwy gerdded, beicio, teithio ar fysiau a threnau. Mae partneriaid Lonydd Glas yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Pembrokeshire Access Group, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor Sir Penfro a PLANED.

1.9.3 Cyflwr ffisegol y rhwydwaith (Arolwg llawn PCAP)

Y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol 2017.

	Cyfanswm y Rhwydwaith	Rhwydwaith Hygyrch	% Hygyrch
Llwybrau Troed	831.5 km	687.3 km	82.6%
Llwybrau Ceffyl	187 km	174.6 km	93.4%
Cilffyrdd sydd Ar Agor i Bob Traffig	9.8 km	9.8 km	100%

	Cyfanswm y Rhwydwaith	Rhwydwaith Hygyrch	% Hygyrch
Cilffyrdd Cyfyngedig	2.6 km	2.6 km	100%
Cyfanswm	1030.9 km	874.3 km	84.8%

Noder: Rhwydwaith hawliau tramwy yn unig (yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus ar hyd Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Penfro).

1.9.4 Sefyllfa Gyfreithiol y Rhwydwaith

- 1.9.4.1 Mae'r Map a Datganiad Diffiniol yn ddogfen gyfreithiol sy'n darparu prawf pendant o fodolaeth, statws a llwybr hawl tramwy cyhoeddus. Felly, mae'n hanfodol ar gyfer rheoli hawliau tramwy cyhoeddus. Cyhoeddwyd y Map a'r Datganiad Diffiniol am y tro cyntaf yn 1960. Dechreuwyd adolygiad ohono ar ddiwedd y 1960au, ond rhoddwyd gorau i'r adolygiad hwnnw.
- 1.9.4.2 Dechreuwyd ail adolygiad o'r Map Diffiniol yn 2009, ac fe'i cwblhawyd yn 2010. Cyhoeddwyd y Map a'r Datganiad Diffiniol cyfunol yn 2012 gyda dyddiad dangosol o 2010. Roedd hwn hefyd ar gael ar-lein, ac felly'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd i'r rhwydwaith wedi'i fapio am y tro cyntaf.
- 1.9.4.3 Ers ei gyhoeddi, bu rhai newidiadau i'r rhwydwaith, er enghraifft trwy orchmynion llwybrau cyhoeddus, gorchmynion diwygio, gorchmynion ail-ddosbarthu a newidiadau mewn defnydd tir. Caiff y newidiadau hyn eu storio mewn copi gwaith ar gronfeydd data mewnol y ddau Awdurdod perthnasol.
- 1.9.4.4 Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn Sir Benfro yn parhau i esblygu. Er enghraifft, mae CSP yn ymwybodol o oddeutu deugain achos posibl o orchmyn addasu mapiau diffiniol (DMMO) lle ceir anghysonderau. Mae 8 cais ffurfiol arall wedi'i wneud ar gyfer DMMO. Yn ogystal, pan gyfunwyd y map diffiniol, ni chyfunwyd y datganiadau diffiniol, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o ddatganiadau angen DMMO. Mae CSP yn cydnabod bod prosesu DMMO yn araf oherwydd y diffyg adnoddau. Byddai angen adnoddau ychwanegol i ymdrin â'r ôl-groniad o DMMOs yn effeithiol.
- 1.9.4.5 Mae newidiadau i'r rhwydwaith hefyd yn digwydd o ganlyniad i Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus, sy'n cynnwys Gorchmynion Dargyfeirio, Cytundebau Creu a Gorchmynion Dileu. Weithiau caiff y rhain eu cyflwyno gan y cyhoedd ond maent hefyd yn digwydd o ganlyniad i raglenni agor llwybrau'r Awdurdodau.
- 1.9.4.6 Yn ystod cyfnod CGHT 2008-2018, gwnaeth APCAP 9 Cytundeb Creu Llwybr Cyhoeddus a 18 o Orchmynion Dargyfeirio Llwybrau Cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae gan yr awdurdod dros 30 o geisiadau wedi'u cofnodi ar gyfer Gorchmynion Dargyfeirio a llawer mwy o anghysonderau o ran llwybrau sydd angen eu ffurfioli gan Orchmyn Dargyfeirio.
- 1.9.4.7 Mae'r Cyngor wedi hyrwyddo dargyfeiriadau hyd at gant o lwybrau cyhoeddus yn ystod y deng mlynedd diwethaf (hyd at 2015). Mae hyn wedi gwella'r rhwydwaith yn fawr trwy wneud llwybrau yn fwy diogel ac yn fwy pleserus i'r cyhoedd eu defnyddio.

- 1.9.4.8 Mae arbedion effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth yn gofyn am ymagwedd fwy cyfyngol tuag at ddargyfeiriadau. Dyletswydd anstatudol yw dargyfeiriadau, felly dim ond pan fo mantais gyhoeddus glir a sylweddol na ellir ei ddiwallu trwy ddulliau llai costus eraill, y mae'r awdurdod yn cyflawni'r dargyfeiriadau hynny.
- 1.9.4.9 Mae gan yr angen i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio'n gyfan gwbl, gan gynnwys atgyfnerthu'r Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio, oblygiadau o ran lleihau staffio'r Tîm Cyfreithiol Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac, o ganlyniad, leihau'r gallu i ymgymryd â gwaith dewisol ar ddargyfeiriadau.
- 1.9.4.10 Oherwydd y newid yn y broses, paratowyd datganiad o flaenoriaethau sy'n nodi sut mae'r awdurdod yn ymdrin â cheisiadau am ddargyfeiriadau.
- 1.9.4.11 Mae'n wybyddus bod anghysondebau yn y rhwydwaith hawliau tramwy lle mae dargyfeiriadau wedi'u cyflawni heb awdurdod i wneud hynny. Mae perchnogion/deiliaid tir, y Cyngor, mentrau cymunedol ac eraill wedi gwneud dargyfeiriadau heb ganiatâd er mwyn sicrhau gwelliannau canfyddedig, er enghraifft er mwyn hyrwyddo defnydd llwybr gwahanol i'r un diffiniol er mwyn sicrhau llwybr agored a hygyrch, a hynny heb fynd drwy'r broses hirfaith angenrheidiol. Nid yw nifer yr anghysondebau yn wybyddus, ond credir, fodd bynnag, bod cannoedd ohonynt.
- 1.9.4.12 Yn ogystal â'r llwybrau a ddangosir ar y Map a'r Datganiad Diffiniol, credir bod nifer arwyddocaol o hawliau tramwy yng Nghymru a Lloegr sydd heb eu cofnodi, sef y 'ffyrdd coll' fel y'u gelwir. Mae rhai o'r rhain yn Sir Benfro. Y dyddiad cau ar gyfer hawliadau sy'n ymwneud â llwybrau o'r fath yw 2026. Rhagwelir cynnydd o 9% yn hyd y rhwydwaith drwy Gymru a Lloegr. Pro-rata, byddai hyn yn golygu cynnydd o 212 cilomedr (132 milltir) i lwybrau Sir Benfro. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r ddeddfwriaeth hon eto. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy 2017, yn cynnig diddymu'r gofyniad i ymchwilio i bob ffordd goll erbyn 2026. Roedd cefnogaeth ysgubol i'r cynnig hwn, gyda 4,149 o ymatebwyr yn cytuno iddo gael ei ddiddymu a dim ond 10 o ymatebwyr yn ei wrthwynebu. Gan ragweld bod y ddeddfwriaeth hon yn annhebygol o gael ei deddfu yng Nghymru, mae angen cynllunio ar gyfer adolygu'r Map Diffiniol yn barhaus.

1.9.5 Adolygiad o'r CGHT blaenorol

1.9.5.1 Mae amcanion y CGHT blaenorol i'w gweld yn Atodiad B. Er mwyn gallu ysgrifennu cynllun newydd, mae angen adolygu amcanion y CGHT gwreiddiol gan ganfod beth a gyflawnwyd a pha mor llwyddiannus fu'r cynllun. Roedd yr adolygiad o weithrediad y CGHT yn ymarferiad hynod o ddefnyddiol ac mae wedi helpu i lywio'r asesiad yn fawr trwy bennu ble y mae angen gwneud gwelliannau.

1.9.5.2 Isod ceir crynodeb o'r nifer o amcanion a gyflawnwyd, faint sy'n cael eu rheoli'n barhaus, faint a gyflawnwyd yn rhannol neu na chafodd eu cyflawni/eu datblygu o gwbl.

Statws	Nifer yr amcanion	Fel canran
Wedi'u cyflawni	46	67%
Cael eu rheoli'n barhaus	4	6%
Wedi'u cyflawni'n rhannol	12	18%
Heb eu cyflawni	6	9%
Cyfanswm	68	100%

1.9.5.3 Nod Amcan A oedd cynnal y rhwydwaith ac fe gyflawnwyd nifer o'r camau gweithredu i'r perwyl hwn. Mae natur yr amcan yn golygu y bydd hon bob amser yn dasg barhaus yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, ac mae llawer o'r camau gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer cyfnod y cynllun nesaf.

1.9.5.4 Nod Amcan B oedd darparu rhwydwaith mwy cysylltiedig, a chyflawnwyd hyn i ryw raddau gan y ffaith bod teithio llesol wedi creu llwybrau ar hyd ochrau ffyrdd sydd, yn anuniongyrchol, wedi cysylltu'r llwybrau a fyddai yn y gorffennol yn dod i ben ar leiniau gwyrddion priffyrdd. Hefyd cyflawnwyd llawer o'r amcanion i uwchraddio'r llwybrau trwy ail-ddynodi neu roi hawliau uwch i lwybrau er mwyn caniatáu i wahanol fathau o ddefnyddwyr y rhwydwaith eu defnyddio. Yn yr un modd, crëwyd llwybrau caniatol er mwyn uno rhannau digyswllt o'r rhwydwaith HTCau. Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach wedi'i integreiddio i'r broses gynllunio fel bod llwybrau sy'n cael eu heffeithio gan geisiadau cynllunio'n cael eu nodi yn ystod camau cynnar y broses a bellach gall y swyddogion cynllunio a swyddogion hawliau tramwy gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau o ran HTCau.

1.9.5.5 Nod Amcan C oedd darparu rhwydwaith diogelach o HTCau sy'n croesi ffyrdd, ac unwaith eto cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy weithredu teithio llesol. Mae cynlluniau ffyrdd newydd hefyd yn cynnwys beicio a cherdded a'r effaith ar y rhwydwaith HTCau yn y cam dylunio. Roedd gwelliant cefnffordd yr A40 yn Robeston Wathen yn cynnwys dau lwybr tanffordd i gysylltu llwybrau ceffylau a llwybrau troed mewn lleoliadau oedd yn anodd/annogel i groesi yn y gorffennol. Mae problemau'n parhau ar y rhwydwaith presennol, ond mae cyfyngiadau ariannol ar gynlluniau o'r fath.

1.9.5.6 Roedd Amcan D yn ymwneud â'r Map Diffiniol a ddiwygiwyd yn 2010 ac a gyhoeddwyd yn 2012. Roedd y pwyntiau gweithredu eraill yn ymwneud â hawliadau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (PPO) a Gorchmynion Diwygio

Map Diffiniol (DMMO), a fyddai'n cael eu prosesu mewn modd amserol yn y gorffennol, ond bod gostyngiad mewn adnoddau a staffio sy'n golygu mai dim nifer cyfyngedig y gall CSP eu prosesu erbyn hyn a hynny fel arfer mewn cysylltiad â cheisiadau cynllunio.

1.9.5.7 Roedd Amcan E yn canolbwyntio ar gynnwys y gymuned yn y gwaith o gynnal y rhwydwaith. Mae'r hyn a gyflawnwyd yn hyn o beth wedi bod yn gyfyngedig oherwydd lleihad yn yr adnoddau y byddai eu hangen er mwyn sefydlu cynlluniau o'r fath. Serch hynny, mae gwirfoddolwyr APCAP wedi helpu i gynnal a chadw HTCau, ac mae cymdeithasau sydd eisoes yn bodoli wedi cynnal arolygon sampl ar ran CSP yn flynyddol.

1.9.5.8 Ac yn olaf, nod Amcan F oedd hyrwyddo'r rhwydwaith llwybrau i gynulleidfa ehangach. Roedd llawer o'r camau yn yr adran hon yn gofyn am i adrannau cyfathrebu a marchnata'r ddau awdurdod hyrwyddo'r rhwydwaith presennol. Mae APCAP yn hyrwyddo 200 o deithiau ar eu gwefan, gan ddarparu map a disgrifiad ar daflen A4 y gellir eu lawrlwytho neu eu hargraffu. Cafwyd mewnbyn sylweddol i ddarparu mwy o wybodaeth ar lawr gwlad hefyd, megis gwybodaeth am bellter a chyrchfannau ar arwyddion ffyrdd ynghyd â phaneli dehongli.

1.9.6 Ymchwil perthnasol

Nodir yn y 'Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (Gorffennaf 2016)', "Gan fod ffynonellau data newydd ar gael, ni ragwelir y bydd angen i awdurdodau gomisiynu eu harolygon cyhoeddus eu hunain". Fodd bynnag, wrth ragweld yr angen i baratoi CGHT2, ymgwymerodd APCAP â gwaith ymchwil yn ystod 2015/16. O ganlyniad, mae'r arolygon perthnasol a ddefnyddiwyd yn cynnwys:

1.9.6.1 Asesiad Lles ar gyfer Sir Benfro (Ebrill 2017).

1.9.6.2 Adroddiad Arolwg Defnyddwyr Llwybr Gwledig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015-2016 (Ionawr 2017) (Ionawr 2017).

1.9.6.3 Adroddiad Arolwg Mynediad i'r Anabl ar gyfer Hamdden yn Sir Benfro (Mai 2016).

1.9.6.4 Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2016: Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2015).

1.9.6.5 Llwybr Arfordir Cymru CNC 2017.

1.9.6.1 Asesiad Lles ar gyfer Sir Benfro

Mae'r adroddiad yn cydnabod manteision y rhwydwaith HTCau ac yn cyfeirio at faint y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ledled y sir a manteision cerdded yng nghefn gwlad. Roedd yr asesiad yn cynnwys arolwg llesiant lleol, a oedd hefyd yn cynnwys sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd ymatebwyr yn gofyn am i'r rhwydwaith gael ei gynnal, ei ehangu lle bo'n bosibl ac yn annog gwirfoddoli fel modd o gynorthwyo gyda'r awgrymiadau hyn.

1.9.6.2 Arolwg Defnyddwyr Llwybr Gwledig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015-2016

Ymgwymerwyd â'r Arolwg Defnyddwyr Llwybr Gwledig gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn llywio'r gwaith o baratoi CGHT2. Cynhaliwyd yr arolwg dros gyfnod o 12 mis (Gorffennaf 2015 - Awst 2016) ac mae sampl swmpus o 2,959 o ymatebwyr wedi darparu cyfoeth o wybodaeth ac arweiniad dibynadwy.

Dangosodd yr arolwg lefelau uchel o foddhad gyda chyflwr hawliau tramwy cyhoeddus, gan nodi bod safonau cynnal a chadw presennol y llwybrau'n bodloni disgwyliadau'r cyhoedd o ran arwynebau, arwyddion a dodrefn mynediad.

Mae'r gyfran uchel o ymwelwyr sy'n aros yn Sir Benfro sy'n cerdded y rhwydwaith llwybrau yn cadarnhau pwysigrwydd y Parc Cenedlaethol fel cyrchfan i dwristiaid, ac yn arbennig atyniad ei harfordir a'i chefn gwlad hygrych. Mae'r ffaith bod dros 50% o ymwelwyr yn cerdded bob dydd yn ystod eu harhosiad yn ategu canlyniadau Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro 2011/12, sef mai cerdded yw'r gweithgaredd hamdden mwyaf poblogaidd ymysg ymwelwyr. O ystyried pwysigrwydd cerdded i economi twristiaeth Sir Benfro, mae angen cynnal y lefel hon o wasanaeth er mwyn sicrhau dyfodol cadarn i'r diwydiant twristiaeth.

Mae'r defnydd rheolaidd gan drigolion hefyd yn drawiadol, gan ddangos bod y defnydd da o'r rhwydwaith llwybrau, a'i fod yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd, lles ac ansawdd bywyd trigolion Sir Benfro. Mae cyfran yr ymwelwyr a'r preswylwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn debyg i'r ymchwil blaenorol, ac er efallai mai dim ond unwaith y mae trigolion ond yn llenwi ffurflen holiadur, mae amllder eu defnydd o'r llwybrau yn ganran sylweddol o ddefnydd y llwybrau gwledig.

Mae'n amlwg mai un o'r prif ddulliau y mae pobl yn ei ddefnyddio i gynllunio taith gerdded yng nghefn gwlad yw dilyn arwyddion ar y rhwydwaith llwybrau ac roedd darparu mwy o arwyddion i gyrchfannau a chofnodi'r pellter yn cael ei nodi'n arbennig fel mesur a fyddai'n annog mwy o gerdded.

Roedd yr arolwg hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr am arweiniad wrth ddarparu gwybodaeth am deithiau cerdded a hyrwyddo cyfleoedd i gerdded. Nodwyd poblogrwydd mapiau'r Arolwg Ordnans a thafleuni gwybodaeth wedi'u hargraffu wrth helpu pobl i gynllunio taith ac roedd galw amlwg hefyd am fwy o ganllawiau a thafleuni wedi'u hargraffu er mwyn annog mwy o gyfranogiad. Roedd pellter a hyd cyfartalog teithiau cerdded yn hwy na'r disgwyl ac mae angen ystyried hyn wrth ddarparu gwybodaeth am deithiau cerdded gan fod y ddarpariaeth gyfredol yn tueddu i ganolbwyntio ar deithiau cerdded cylch, byrrach. Nodwyd bod marchnata cynyddol o gyfleoedd cerdded yng nghefn gwlad yn nodwedd allweddol sy'n annog mwy o gyfranogiad. Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd mynediad yw un o'r prif rwystrau i gyfranogiad a nodwyd. Dengys oedran yr ymatebwyr bod cerdded er mwyn hamddena yn fwy poblogaidd ymhlith grwpiau canol oed ac wedi ymddeol ac felly bod potensial i farchnata cerdded i'r grwpiau oedran iau. Dengys yr arolwg fod cerdded yng

nghefn gwlad yn aml yn weithgarwch hynod o dymhorol, gyda golau dydd, tywydd a chyflwr y ddaear yn fwy ffafriol ar gyfer cymryd rhan yn ystod misoedd yr haf, ond efallai bod potensial i hyrwyddo'r gweithgaredd yn fwy yn ystod misoedd y gaeaf, y gwanwyn a'r hydref.

1.9.6.3 Adroddiad Arolwg Mynediad i'r Anabl ar gyfer Hamdden

Nod yr Arolwg oedd nodi a gweithio tuag at waredu rhwystrau i bobl anabl rhag ymweld â safleoedd hamdden awyr agored a phrofi gweithgareddau hamdden. Mae felly'n berthnasol i reoli hawliau tramwy cyhoeddus.

Roedd y prif rwystrau a nodwyd ar gyfer pobl anabl fel a ganlyn:

- Anawsterau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus; diffyg gwasanaethau cludiant cyhoeddus rheolaidd, yn enwedig i ardaloedd gwledig, ar yr adegau y dymunai pobl ymweld, e.e. penwythnosau, min nosau, allan o'r tymor gwyliau, ac ati.
- Problemau canfyddiad; dangoswyd bod gan rai darparwyr, arweinwyr grŵp, rhieni/gofalwyr agweddau negyddol tuag at allu unigolion anabl i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau. I raddau llai, mae gan unigolion anabl ganfyddiad o'u diffyg gallu eu hunain i gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau a ystyrir i fod yn rhai mwy corfforol neu beryglus.
- Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd. Diffyg gwybodaeth gyffredinol ymhlith cyfranogwyr a darparwyr am y gweithgareddau, cyrchfannau, a'r darparwyr sydd ar gael ar hyn o bryd, sy'n hygyrch ac sy'n cynnig cyfleoedd.
- Dibyniaeth ar gymorth gan eraill; mae rhai unigolion angen help gan eraill i fynd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac mae hynny'n lleihau amllder eu cyfranogiad.

Nodwyd y canlynol gan unigolion anabl fel camau a fyddai'n annog cyfranogiad mewn hamdden awyr agored:

- Adnodd canolog er mwyn gallu dod o hyd i wybodaeth am weithgareddau a darparwyr sy'n gallu darparu ar gyfer galluoedd amrywiol.
- Sesiynau 'blasu' gweithgareddau; gallai digwyddiadau wedi'u hyrwyddo'n benodol fel sesiynau 'cyflwyno' neu 'flasu' ar gyfer unigolion anabl roi cyfle i gyfranogwyr llai hyderus 'roi cynnig arni' er mwyn penderfynu a ydynt yn addas ar eu cyfer.
- Darparu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y sector gweithgareddau antur er mwyn annog gwell dealltwriaeth o anghenion a chyfleoedd ar gyfer unigolion anabl. Byddai hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff - o'r staff archebu i'r staff cyflwyno, yn hyderus yn eu gwaith ac yn sicrhau'r profiad o ansawdd orau i bawb sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd.

1.9.6.4 Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2016: Adroddiad Terfynol

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod 2014 a chafwyd sampl o 5,995 o ymatebwyr. Mae'r adroddiad yn cymharu data gyda data dau arolwg blaenorol sy'n dyddio o 2008 a 2011. Cerdded yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd o lawer yn dal i fod, gyda 83% o ymatebwyr yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn, ond gwelwyd hefyd gynnydd mewn beicio ar y ffordd a rhedeg. Roedd 17% o

ymatebwyr yn beicio oddi ar y ffordd/beicio mynydd a 6% yn marchogaeth, sef newid bychan yn y lefelau cyfranogiad ers 2008.

Mae cyfranogiad cyffredinol yn parhau i fod yn uchel gyda 93% wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o hamdden awyr agored o fewn y 12 mis blaenorol ond roedd cyfranogiad aml mewn hamdden awyr agored wedi gostwng. Bu gostyngiad hefyd mewn ymweliadau byr â chefn gwlad ac ymweliadau i safleoedd ar garreg y drws. Y parciau oedd y gyrchfan mwyaf poblogaidd, sy'n dangos pwysigrwydd mannau gwyrdd trefol. Y prif gymhelliannau a nodwyd oedd iechyd ac ymarfer corff (23%) a mynd â chŵn am dro (22%). Y prif rwystr o ran y rhai nad oeddent yn cymryd rhan oedd anabledd corfforol a gwaeledd a'r prif rwystr o ran cyfranogiad prin neu anaml oedd diffyg amser a thywydd gwael.

Dangosodd cwestiwn newydd ynglŷn â gwariant mai dim ond yn ystod 42% o ymweliadau y bu gwariant, a oedd yn £30.51 y pen ar gyfartaledd. Aseswyd buddion iechyd ar sail amlder, hyd a dwysedd, a chyfrifwyd bod 57% o'r sampl yn cael rhywfaint o fudd i'w hiechyd o'r gweithgareddau a bod 28% yn cael buddion amlwg o hamdden yn yr awyr agored.

Dangosodd yr arolwg bod galw parhaus gan oedolion sy'n byw yng Nghymru a fyddai'n hoffi ymweld â'r awyr agored ar gyfer hamdden yn amlach (60%), sef yr un gyfran ag a gofnodwyd yn 2011 a 2008. Cerdded oedd y gweithgarwch a ymgwymerir ag ef amlaf ymhlith y rhai hynny sy'n mynd i'r awyr agored, a cherdded hefyd oedd y gweithgaredd y byddai'r gyfran uchaf o ymatebwyr yn hoffi ei wneud yn amlach. O ran cyrchfannau, dywedodd 30% o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi ymweld â thraethau'n amlach nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, gan wneud hwn y math mwyaf poblogaidd o gyrchfan.

1.9.6.5 Llwybr Arfordir Cymru CNC 2017

Cynhaliwyd cyfanswm o 1,483 o gyfweiliadau yng Nghymru yn ystod 2015 gyda 151 o gyfweiliadau mewn 5 canolfan arolwg yn Sir Benfro. Gellir crynhoi'r canlyniadau Sir Benfro o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sydd mewn cromfachau, fel a ganlyn:

- Oedran yr ymatebwyr: 45 - 64 oed 51%; dros 45 oed 72% (Cymru: 74% dros 45 oed).
- Tarddiad: 52% o Gymru, 45% o Loegr (Cymru 59% a Lloegr 38%)
- Yn Sir Benfro oedd yr ymwybyddiaeth uchaf o Lwybr Arfordir Cymru - 61% (Cymru 46%)
- Sir Benfro oedd â'r gyfran fwyaf o ymwelwyr oedd yn aros yn y sir 64% (Cymru 39%).
- Rhesymau dros ddefnyddio Llwybr yr Arfordir: taith o gartref ar gyfer hamdden 37%; taith hamdden/gwyliau hirach 62%. (Cymru 60% - 38%).
- Roedd y pellter a deithiwyd ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn Sir Benfro yn 3.2 milltir gan gynnwys dychwelyd yr un ffordd.
- Gwariant fesul grŵp/parti (2 oedolyn oedd maint y parti ar gyfartaledd): Yn Sir Benfro roedd y cyfartaledd yn £27.34 ar gyfer taith diwrnod cyfan, dyma'r

swm uchaf o bell ffordd yn ôl rhanbarth; £78.82 oedd y gwariant cymedrig ar lety fesul noson.

- Ymagwedd at risg canfyddedig a diogelwch personol wrth gerdded Llwybr Arfordir Cymru – nid oedd 49% o ymatebwyr wedi gwneud unrhyw baratodau diogelwch o flaen llaw ac nid oedd ganddynt ganfyddiad o unrhyw risg i gerdded Llwybr yr Arfordir.

Mae'r arolwg yn atgyfnerthu arwyddocâd economaidd Llwybr yr Arfordir a hawliau tramwy cyhoeddus i ddiwydiant twristiaeth Sir Benfro.

1.9.7 Ymgynghoriad y Fforwm Mynediad Lleol

Mae Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro wedi ymwneud yn fanwl â phob cam o adolygiad y CGHT a pharatoi CGHT2. Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor CGHT y Fforwm ar 7 Ebrill 2017 er mwyn adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac yn ei gyfarfod llawn ar 16 Mehefin 2017 nodwyd y prif flaenoriaethau ar gyfer CGHT2. Mae'r prif flaenoriaethau wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Angen sefydlu gwaelodlin o ddata ynglŷn â chyflwr y rhwydwaith sirol er mwyn monitro perfformiad a chynghori'r cyhoedd o ran hygyrchedd a chyflwr y rhwydwaith.
- Er bod cynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus yn ddyletswydd statudol, dylai ymrwymiad i gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus fod yn flaenoriaeth sylfaenol i'r Cynllun.
- Rhaid i amcanion y cynllun fod yn gwbl gyraeddadwy ac er bod pryder ynghylch ansicrwydd cyllid i'r dyfodol, mae angen i'r amcanion fod yn uchelgeisiol er mwyn sicrhau unrhyw ffrydiau cyllido sydd ar gael, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â iechyd a lles. Mynegwyd pryder ynglŷn â diwedd rhaglen ariannu'r CGHT yn 2018 a oedd wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd o ran gweithredu cynigion y CGHT dros nifer o flynyddoedd.
- Roedd yna'n potensial i hyrwyddo rhagor o lwybrau aml-ddefnydd hir yn y sir. Gellid gwella'r Ffordd Euraid yn y Preseli a Llwybr Sir Benfro a chreu nifer o lwybrau newydd. Byddai llwybrau o'r fath, a gâi eu hyrwyddo, yn denu ymwelwyr i aros. Dylai'r awdurdodau lleol weithio'n agos gyda Dŵr Cymru i wneud y gorau posibl o'r llwybrau o'r ganolfan yn Llys-y-frân.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i wella llwybrau ceffylau gan eu bod yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth o ddefnyddiwr. Dylai creu a hyrwyddo teithiau cerdded cylch o gwmpas aneddiadau hefyd fod yn flaenoriaeth.
- Dylid hefyd blaenoriaethu gwelliannau ar gyfer mynediad i bobl anabl a defnyddwyr cadeiriau olwyn hefyd. Mae'n bwysig cynnal a hyrwyddo'r ddarpariaeth bresennol a lle bo hynny'n bosibl, ceisio datblygu llwybrau newydd a fyddai'n sicrhau mynediad gyda sgwteri symudedd fel na fyddai angen gwelliannau costus i arwynebau.

- Ni ddylai'r Cynllun ddyblygu'r dyletswyddau o ran gwelliannau beicio a cherdded a ddaw yn sgil y ddeddfwriaeth Teithio Llesol. Mae gwelliannau Teithio Llesol wedi'u cyfyngu i ardaloedd trefol, mwy o ran maint, ac felly mae lle i gynllunio ar gyfer llwybrau defnydd a rennir (SUP) yng nghefn gwlad yn ehangach er mwyn gwneud ffyrdd yn fwy diogel ar gyfer defnyddwyr bregus.
- Gallai "Ffyrdd Coll" (hawliau tramwy heb eu cofnodi) o bosibl gynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer mynediad. Petai'r ddyletswydd yn cael ei gweithredu yng Nghymru, dylai CGHT2 fod â darpariaeth a fyddai'n galluogi'r Cyngor Sir i sicrhau arian ar gyfer yr ymchwil i Ffyrdd Coll.
- Dylid cynnwys amcanion sy'n hyrwyddo ymddygiad cyfrifol yng nghefn gwlad, rheoli cŵn a hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad mewn CGHT newydd.
- Mae gan y sector wirfoddol rôl bwysig o ran rheoli hawliau tramwy cyhoeddus. Mae angen cefnogaeth fwy strwythuredig er mwyn galluogi gwirfoddolwyr a grwpiau unigol i fonitro cyflwr hawliau tramwy cyhoeddus ac ymgymryd â gwaith cynnal a chadw, boed hynny'n waith mân neu'n brosiectau mwy sylweddol sy'n cynnwys criwiau o weithwyr.

1.9.8 Cyfarfod â Swyddog Mynediad CSP ac Ysgrifennydd Grŵp Mynediad Sir Benfro

Ar hyn o bryd, er bod y cyfleoedd yn gwella o ran defnyddio'r rhwydwaith ar gyfer pobl anabl, mae'n dal i fod yn gyfyngedig. Mae nifer o ffyrdd y gellir mynd i'r afael â hyn, er enghraifft trwy:

- Sicrhau bod mwy o lwybrau ar gael ar gyfer pobl anabl (a mathau penodol o anabled) trwy wella arwynebau, lled a graddiant, a darparu sylwebaeth wedi'i recordio ar gyfer llwybrau cylch – a lle bynnag y bo'n ymarferol, ystyried arfer gorau, megis safonau ymddiriedolaeth 'Fieldfare' er mwyn sicrhau safonau uchel
- Darparu rhagor o wybodaeth am lwybrau sydd ar gael ar gyfer pobl anabl a graddio'r llwybrau fel bod defnyddwyr yn gallu dewis ymlaen llaw pa lwybrau sy'n ymarferol iddynt eu defnyddio;
- Darparu mwy o lwybrau cylch gan fod llawer o'r llwybrau sy'n addas ar gyfer grwpiau anabl ar hyn o bryd yn dychwelyd ar hyd yr un llwybr. Lle mae'n rhaid dychwelyd ar hyd yr un llwybr, mae angen sicrhau bod lle i droi ar gael;
- Lle bynnag y bo modd, dylid darparu cyfleusterau atodol megis seddi a darpariaeth bysiau ar lwybrau sy'n addas ar gyfer defnyddwyr anabl, yn ogystal â chyfleusterau penodol megis toiledau a llefydd parcio;
- Darparu ar gyfer y defnydd cynyddol pobl sydd ag anawsterau symudedd o sgwteri pedair olwyn a cherbydau *tramper* yn ogystal â chadeiriau olwyn. Mae hyn yn aml yn gofyn am arwyneb o ansawdd gwell, ond gallai hyn fod yn wyneb wedi'i gywasgu y gallai marchogion ei ddefnyddio hefyd;

- Lleihau nifer y camfeydd ar y rhwydwaith a'u cyfnewid am gatiâu neu fylchau lle bynnag y bo modd; a
- Tynnu sylw at fannau peryglus er mwyn diogelwch defnyddwyr dall/rhannol ddall.

Er bod nifer y llwybrau sydd ar gael yn gyfyngedig, mae angen gwneud mwy i hysbysu defnyddwyr anabl o'r hyn sydd ar gael, megis:

- Gwybodaeth ar y we am y llwybrau aml-ddefnydd yn CSP. Ar hyn o bryd ar ei wefan, mae APCAP yn cynnal ac yn hyrwyddo rhestr, sydd ar fin cael ei hadolygu, o lwybrau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, ond mae angen i CSP wneud yr un modd fel bod darpariaeth yr wybodaeth yn gyson ledled y Sir.
- Diweddarau dogfen Grŵp Mynediad Sir Benfro (PAG) *Scouting Around in Pembrokeshire*. Gallai hyn helpu i greu casgliad o lwybrau yn CSP sy'n addas ar gyfer rhai sydd â phroblemau symudedd.
- Ymagwedd gydgysylltiedig tuag at hyrwyddo rhwng PAG a'r Awdurdodau. Gallai dolenni ar eu gwefannau helpu i gyflawni hyn.
- Mae angen hyrwyddo mewn ffordd fwy cyfunol y ffaith fod cadeiriau olwyn modur ar gael i'w llogi gan wahanol sefydliadau.

1.9.9 Adborth a sylwadau rhanddeiliaid o'r ymgynghoriad cychwynnol

Cysylltodd yr ymgynghoriad cychwynnol â chyfanswm o 83 o randdeiliaid statudol (fel y rhagnodwyd gan ganllawiau Llywodraeth Cymru) a 61 o randdeiliaid ychwanegol y credai'r Awdurdodau ei bod yn briodol cysylltu â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys stiwardiaid tir comin, elusennau ac ymddiriedolaethau, grwpiau defnyddwyr a busnesau preifat.

Roedd yr e-bost ymgynghori cychwynnol yn cynnwys:

- y cylch gorchwyl a amlinellai unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a phroses ers y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy blaenorol;
- yr amserlen ar gyfer adolygu a diwygio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ynghyd â llythyr yn esbonio pob cam o'r amserlen; a
- chais ar i randdeiliaid roi sylwadau ar gyflwr presennol y llwybrau cyhoeddus; sut ac ar gyfer beth yr oeddynt yn defnyddio'r rhwydwaith; eu blaenoriaethau o ran cynnal a lle bo modd, gwella'r agweddau hynny; ac, yn eu barn hwy, pa rwystrau oedd yn atal pobl rhag defnyddio'r rhwydwaith.

Darparwyd dolen i dudalen y CGHT presennol ar wefan CSP hefyd er mwyn cyfeirio ato, ac adolygyd hwn gan rai'n ddiweddarach.

Cafwyd 13 ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan ystod o grwpiau, sefydliadau ac unigolion. Prif bryderon a blaenoriaethau'r ymatebwyr oedd:

- bod y rhwydwaith yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod angen parhau â hyn;
- bod angen ailagor mwy o lwybrau, yn enwedig llwybrau mewndirol oddi wrth lwybr yr arfordir;
- bod angen parhau i gael gwared ar gamfeydd a'u cyfnewid am gatiâu;

- bod croeso i lwybrau caniataol gan eu bod yn ategu'r rhwydwaith HTCau;
- bod angen cynnal dodrefn llwybrau megis arwyddion ffordd a bod angen mwy o baneli dehongli;
- yr hoffai rhanddeiliaid ddechrau deialog gyda rheolwyr rhwydwaith ynglŷn â gwaith HTCau yn eu hardal yn y dyfodol, a hefyd ynglŷn â chytundebau/ceisiadau cynllunio adran 106;
- bod angen gwneud mwy o waith hyrwyddo'r cod cefn gwlad er mwyn atal defnydd amhriodol;
- bod angen rhoi hawliau uwch i lwybrau troed a fyddai'n creu llwybrau ceffylau cylch;
- bod angen mwy o wybodaeth am lwybrau mynediad hwylus, yn enwedig yn ardal CSP;
- bod angen mwy o deithiau tywys a theithiau cerdded ar y we;
- bod angen atebion newydd ar gyfer y rhannau hynny o lwybr sy'n cysylltu'r rhwydwaith HTCau sydd ar y ffordd, gan nad yw'r rhain mor ddiogel â gweddill y llwybrau oherwydd maint a chyflymder y traffig a chyflymder; a
- bod angen cadw'r lleoedd parcio ar gyfer marchogion ac mewn canolfannau croeso.

1.9.10 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar CGHT Drafft

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft rhwng 9 Mai 2018 a 3 Awst 2018. Ymatebodd cyfanswm o 18 o unigolion a sefydliadau i'r ymgynghoriad, ac yn gyffredinol roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn adlewyrchu'r rhai a gafwyd yn yr ymgynghoriad cychwynnol. Diweddarwyd y CGHT drafft er mwyn adlewyrchu'r sylwadau hyn lle bo'n briodol.

1.9.11 Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Gwnaed asesiad effaith integredig ar gyfer CGHT2 er mwyn asesu effaith y cynllun ar gydraddoldeb, iechyd a lles, datblygiad cynaliadwy a'r iaith Gymraeg.

1.9.12 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Cynhaliwyd adroddiad sgrinio AAS ar gyfer CGHT2 er mwyn penderfynu a oedd angen adroddiad AAS llawn ai peidio. Daeth y CGHT blaenorol i'r casgliad nad oedd angen AAS, ac am na wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r CGHT ac nad yw'r CGHT yn rhoi cyfeiriad i unrhyw brosiectau penodol, daeth yr adroddiad sgrinio i'r casgliad nad oes angen adroddiad AAS ar gyfer CGHT2.

Rhan 2 Datganiad Gweithredu

- 2.1 Beth yw'r prif heriau i'r Awdurdodau wrth iddynt reoli a gwella'r rhwydwaith?
- 2.1.1. Dengys yr Asesiadau yn Rhan 1 bod galw am lwybrau gwledig diffiniedig sydd wedi'u harwyddo, eu cynnal, sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n gysylltiedig ag anghenion a dyheadau'r defnyddwyr. Maent hefyd yn nodi'r galw am ragor o wybodaeth ac am ragor o hyrwyddo'r cyfleoedd mynediad sydd ar gael yn Sir Benfro.
- 2.1.2. Mae'r Awdurdodau wedi nodi nifer o heriau wrth iddynt reoli a gwella'r rhwydwaith. Mae'r rhain wedi'u nodi isod ac fe'u hystyriwyd wrth osod amcanion CGHT2.
- 2.1.3. Cynnal a chadw – mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith o lwybrau sy'n ehangu, mewn cyflwr priodol. Wrth i'r rhwydwaith gael ei ddefnyddio fwyfwy, bydd angen cynnal arolygon cyflwr rheolaidd a gweithredu rhaglenni gwaith er mwyn sicrhau bod HTCau yn cael eu cynnal i safon eithaf diogel a plaserus. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu gwerth i'r llwybrau sy'n bodoli eisoes. Byddant yn mynd i'r afael â'r dasg hon drwy amcan A yn bennaf.
- 2.1.4. Gwelliannau – yn y cynllun blaenorol, roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar adfer llwybrau oedd wedi'u rhwystro. Bydd yr angen i wella safon y rhwydwaith sydd ar gael eisoes yn cael blaenoriaeth yn y cynllun hwn ac fe'i hamlinellir yn amcan B yn bennaf. Mae hyn oherwydd bod y cynnydd mawr yng nghanran y llwybrau sydd 'ar agor', sydd bellach dros 80%, yn arwain yn naturiol at newid ffocws i sicrhau bod llwybrau'n hygyrch ar gyfer fwy o ddefnyddwyr. Mae defnyddio'r dull 'dewis lleiaf cyfyngol' (gweler yr eirfa) yn hanfodol wrth gyflawni'r nod hwn, a thrwy hynny annog mwy o gyfranogiad.
- 2.1.5. Rhwydwaith mwy diogel – Mae angen integreiddio'r rhwydwaith priffyrdd gyda HTCau er mwyn darparu cyfleoedd mwy diogel ar gyfer cerdded a beicio. Mae Amcan C yn rhoi'r cyfle i weithio'n agosach gydag adran priffyrdd ac adeiladu CSP sy'n cynnwys y cymunedau a ddynodwyd yn ganolfannau Teithio Llesol.
- 2.1.6. Gweinyddu – mae gan y ddau Awdurdod bwerau i ymgymryd â chamau cyfreithiol sy'n eu galluogi i ddargyfeirio llwybrau a chreu llwybrau. Gallant hefyd gau llwybrau dros dro. Ar hyn o bryd mae nifer fawr o gynigion dargyfeirio sy'n aros am eu prosesu ac mae rhagor o gynigion newydd yn cael eu hychwanegu atynt yn flynyddol. Mae hwn yn waith pwysig, sy'n hwyluso gwelliannau a darparu sicrwydd ynglŷn â llwybrau, statws a rhwymedigaethau i dirfeddianwyr a defnyddwyr llwybrau fel ei gilydd. Fel arfer, bydd yr Awdurdodau'n adennill costau prosesu gorchmynion dargyfeirio llwybrau cyhoeddus gan y sawl sy'n gwneud y cais. Yn ogystal, mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am adolygu'r Map a Datganiad Diffiniol yn barhaus, ac mae'n ofynnol gwneud gorchmynion diwygio pan ddaw tystiolaeth i'r amlwg ynglŷn â hawliau tramwy sydd heb eu cofnodi. Mae'r hinsawdd economaidd wedi newid yn sylweddol ers y CGHT gwreiddiol, ac mae llawer llai o adnoddau ar gael ar gyfer prosesu diwygiadau,

dargyfeiriadau a chreu llwybrau. Fodd bynnag, mae amcan D yn nodi'r angen i barhau â'r gwaith hwn.

- 2.1.7. Gweithredu cyfreithiol – wrth i waith cynnal a chadw a gwella barhau, mae cyfran mwy a mwy o'r rhwydwaith ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae cyfran, sy'n lleihau'n gyson, o lwybrau sy'n parhau i fod ar gau i'r cyhoedd, naill ai oherwydd eu bod wedi'u rhwystro'n fwriadol neu oherwydd bod diffyg cydweithrediad ar ran rhai tîrffeddiannwyr er mwyn galluogi gwelliannau. Mae'r Awdurdodau'n barod i ystyried camau cyfreithiol ac yn y pen draw, camau gorfodi er mwyn sicrhau bod rhai llwybrau pwysig yn hygyrch. Gall cymryd camau cyfreithiol effeithiol er mwyn pennu a diogelu hawliau mynediad y cyhoedd arafu'r gwaith cyfreithiol arall. Gall yr Awdurdodau adennill costau sy'n deillio o gamau gorfodi sy'n gofyn am gael gwared ar rwystrau. Unwaith eto, mae hyn wedi'i gynnwys yn amcan D.
- 2.1.8. Ymgysylltiad – mae lle i sicrhau mwy o gyfranogiad cymunedol a gwirfoddol yn y gwaith o wella a rheoli HTCau. Mae'n amlwg bod yr awdurdodau angen mwy o adnoddau staffio er mwyn gwireddu potensial y sector gwirfoddol, ac mae amcan E yn darparu atebion i'r perwyl hwn.
- 2.1.9. Hyrwyddo – mae hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd mynediad a ddarperir gan y rhwydwaith HTCau a thir mynediad gan ddefnyddio fformatau electronig (gwefan), papur ac ar safleoedd yn hanfodol er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith. Bydd yr Awdurdodau'n parhau i fod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith ymhlith trigolion ac ymwelwyr. Mae'r angen i hyrwyddo ymddygiad cyfrifol wrth ymweld â chefn gwlad yr un mor bwysig ag erioed. Mae Amcan F yn ceisio ymateb i'r heriau hyn.

Amcanion CGHT

2.2 Amcanion ar gyfer cynllun gweithredu CGHT2

Mae'r adolygiad a'r asesiadau yn darparu cyd-destun ar gyfer chwe amcan CGHT2 a fydd yn llywio rheolaeth a datblygiad hirdymor y rhwydwaith hawliau tramwy:

- Amcan A – i gynnal rhwydwaith hygyrch o lwybrau cyhoeddus;
- Amcan B – i ddarparu rhwydwaith mwy parhaus sy'n diwallu gofynion pob un o'r defnyddwyr;
- Amcan C – i weithio gydag adran priffyrdd ac adeiladu CSP er mwyn datblygu rhwydwaith mwy diogel o lwybrau mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd;
- Amcan D – i wella gweithdrefnau cyfreithiol ar gyfer cofnodi, diogelu a newid HTCau;
- Amcan E – i sicrhau mwy o gyfranogiad gan y gymuned, grwpiau defnyddwyr a gwirfoddolwyr wrth wella a rheoli lwybrau cyhoeddus; ac
- Amcan F – i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o gyfleoedd mynediad i gefn gwlad a ddarperir gan lwybrau cyhoeddus a thir mynediad, drwy hyrwyddo a darparu gwybodaeth.

2.2.1. Mae'r chwe amcan hwn yn amcanion dyheadol ar gyfer y rhwydwaith HTCau ac yn dibynnu ar gyllid o'r cyllidebau presennol ynghyd ag ymgeisio am gyllid allanol megis y Gronfa Seilwaith Gwyrdd.

2.3 Camau gweithredu ar gyfer pob amcan yn unigol:

2.3.1. **Amcan A** - i gynnal rhwydwaith hygyrch o lwybrau cyhoeddus

A1	Cynnal Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Penfro a rhwydwaith hygyrch o HTCau yn Sir Benfro i'r lefelau presennol a lle bo'n bosibl gynyddu hyd y rhwydwaith. Diffinnir y rhwydwaith hygyrch fel llwybrau sydd wedi'u harwyddo o'r briffordd ac sy'n hawdd eu defnyddio'n unol â hawliau tramwy eu dosbarthiad penodol.
A2	Adolygu canllawiau'r drefn o flaenoriaethu'r rhaglen gynnal a chadw a fabwysiadwyd yn CGHT 2008.
A3	Ymgymryd â chyfundrefn o archwilio HTCau yn rheolaidd a rhaglen gynnal a chadw systematig ar gyfer y rhwydwaith a gynhelir.
A4	Lle bo modd, defnyddio deunyddiau cynaliadwy ar gyfer dodrefn ac arwyddion HTCau a thir mynediad lle bo hynny'n briodol. Penderfynir ar hyn yn ôl egwyddorion 'gwerth gorau'.
A5	Gweithio gyda rheolwyr tir er mwyn lleihau rhwystrau diangen a gwella arwynebau. Gweithredu'r dull mynediad lleiaf cyfyngol wrth ymdrin â bwlch/giât/camfa fel yr argymhellir yng nghanllawiau CNC "Trwy Bob Dull Rhesymol 2017".
A6	Gweithio'n agos gyda darparwyr ac ymgymerwyr cynlluniau amaeth-amgylcheddol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau HTC rheolwyr tir a chynorthwyo gyda gwelliannau mynediad lle bo modd. CSP ac APCAP i sefydlu cyfarfod cyswllt blynyddol gyda darparwyr amaeth-amgylcheddol.
A7	Gwella'r cydweithio â chyrrff cyhoeddus a phreifat a phrif berchnogion tir megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Dŵr Cymru, CNC, ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt er mwyn sicrhau arferion cynnal a chadw effeithlon lle bynnag y bo modd. Ceisio cyfraniadau ariannol gan sefydliadau o'r fath ar gyfer gwella mynediad lle bynnag y bo modd hefyd.
A8	CSP ac APCAP i ymchwilio a mabwysiadu arferion cydweithio a fydd yn sicrhau effeithlonrwydd wrth reoli HTCau.
A9	Integreiddio Tir Mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn darparu rhagor o gyfleoedd cerdded.

2.3.2. **Amcan B** – i ddarparu rhwydwaith mwy cysylltiedig sy'n diwallu gofynion pob un o'r defnyddwyr

B1	Gweithio gyda Thîm Teithio Llesol CSP i nodi pa gysylltiadau rhwng y trefi a chefn gwlad y gellid eu gwella neu eu creu er mwyn cysylltu'r canolfannau trefol gyda'r rhwydwaith HTCau a thir mynediad. Parhau i nodi a gwella cysylltiadau â chefn gwlad aneddiadau eraill sy'n llai na throthwy poblogaeth Teithio Llesol.
B2	Blaenoriaethu gwella'r rhwydwaith presennol o lwybrau ceffylau a llwybrau sydd ar gael ar gyfer beicio a lle bynnag y bo modd, eu huwchraddio'n llwybrau aml-ddefnydd sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Dylid ystyried gwelliannau i'r arwyneb yn ofalus, gan roi sylw arbennig i ganllawiau Cymdeithas Ceffylau Prydain, a thrwy ymgynghori â pherchnogion/meddianwys yr effeithir arnynt.
B3	Gyda chytundeb perchnogion tir, creu llwybrau ceffylau a llwybrau ar gyfer beicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn newydd, a chreu hawliau caniatool pan na ellir dynodi llwybr fel llwybr ceffylau. Dylid rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau coll a allai greu llwybrau cylch neu llwybrau llinol hwy.
B4	Ymchwilio i ymarferoldeb a chynaliadwyedd cyflwyno cyfleoedd newydd ar gyfer beicio oddi ar y ffordd, beicio mynydd a chyfleusterau ar gyfer gyrru cerbydau modur oddi ar y ffordd, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg presennol yn y ddarpariaeth.
B5	Ymgorffori llwybrau caniatool sydd mewn manau strategol pwysig i'r rhwydwaith HTCau lle bo hyn yn bosibl. Lle nad yw caniatáu HTCau yn bosibl, yna dylid creu llwybrau caniatool newydd o bob dosbarthiad HTC, gan roi blaenoriaeth i lwybrau a fyddai'n datrys cysylltiadau coll yn y rhwydwaith â'i gilydd.
B6	Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid fel Grŵp Mynediad Sir Benfro, nodi cyfleoedd i uwchraddio llwybrau a chyfleusterau er mwyn creu rhagor o lwybrau mynediad hwylus sy'n addas ar gyfer pobl o bob gallu.
B7	Cydweithio'n agos â'r awdurdodau cynllunio er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau pan fydd cais cynllunio yn effeithio ar HTC (llwybrau ceffylau yn arbennig) neu Dir Mynediad.
B8	Adolygu Llwybr Sir Benfro (llwybr aml-ddefnydd o'r Gogledd-De) er mwyn nodi gwelliannau posibl i'r rhannau hynny o'r llwybr sydd ar y ffordd. Ymchwilio i ymarferoldeb creu mwy o lwybrau cerdded ac aml-ddefnydd pellter hir o gwmpas y sir.
B9	Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a grwpiau defnyddwyr, nodi cyfleoedd lle y gallai gwelliannau dethol i lwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffylau wella rhwyddineb mynediad i ystod ehangach o ddefnyddwyr.

2.3.3. **Amcan C** - i weithio gydag adran priffyrdd ac adeiladu CSP er mwyn datblygu rhwydwaith mwy diogel o lwybrau mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd;

C1	Gweithio gydag adran priffyrdd ac adeiladu CSP er mwyn gwella diogelwch HTCau prysur sy'n croesi ffyrdd prysur, neu wella ffyrdd prysur er mwyn cysylltu rhannau o'r rhwydwaith HTCau â'i gilydd. Gallai hyn gynnwys croesfannau, llwybrau tan/dros y ffordd, mesurau tawelu traffig a darnau oddi ar y ffordd o HTC newydd i gysylltu llwybrau â'i gilydd neu rannau o'r briffordd wedi'u peintio er mwyn cysylltu llwybrau â'i gilydd lle nad yw darparu llwybr troed yn bosibl.
C2	Gweithio gydag adran Teithio Llesol CSP er mwyn nodi HTCau a allai gyflawni'r ymrwymiad Deddf Teithio Llesol i gysylltu aneddiadau a darparu cyfleoedd Teithio Lleol yn y cymunedau.

2.3.4. **Amcan D** - i wella gweithdrefnau cyfreithiol ar gyfer cofnodi, diogelu a newid HTCau

D1	CSP ac APCAP i fabwysiadu'r protocolau gorfodi ar y cyd yn ffurfiol er mwyn atal defnydd anghyfreithlon o HTCau a chynorthwyo i reoli rhwydwaith hygyrch.
D2	Adolygu a mabwysiadu trefn ddiwygiedig ar gyfer blaenoriaethu hawliadau Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol a Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus ar gyfer CSP ac APCAP.
D3	Gweithredu polisi Llywodraeth Cymru ar sut i ymchwilio i 'ffyrdd coll' erbyn 2026 pan fydd y canllawiau wedi'u cyhoeddi. Serch hynny, os na chaiff hyn ei weithredu yng Nghymru, ymgynghori â rhanddeiliaid a grwpiau defnyddwyr i ganfod achosion blaenoriaeth a cheisio adnoddau ychwanegol i ymchwilio i achosion o'r fath.

2.3.5. **Amcan E** - i sicrhau mwy o gyfranogiad gan y gymuned, grwpiau defnyddwyr a gwirfoddolwyr wrth wella a rheoli llwybrau cyhoeddus;

E1	Sefydlu cynllun "Mabwysiadu Llwybr", er mwyn galluogi unigolion, wardeiniaid pentrefi, cynghorau tref a chymuned, a grwpiau llwybrau cymunedol i fonitro cyflwr hawliau tramwy cyhoeddus ac ymgymryd â mân waith cynnal a chadw heb oruchwyliaeth, os dymunir hynny. Sefydlu cynllun peilot i ddechrau er mwyn asesu nifer y gwirfoddolwyr a'r adnoddau fyddai eu hangen er mwyn gefnogi cynllun ledled y sir. Fel rhan o'r cynllun, darparu gwybodaeth ar i ba raddau y gall aelodau unigol o'r cyhoedd wneud gwaith cynnal a chadw heb oruchwyliaeth ar hawliau tramwy cyhoeddus.
E2	Cynyddu adnoddau Gwasanaeth Parcmynd Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn iddynt weithio ledled y sir yn rheoli hawliau tramwy cyhoeddus ynghyd â chymunedau, grwpiau defnyddwyr a grwpiau cleientiaid.

E3	Nodi ystod o brosiectau cynnal a gwella hawliau tramwy cyhoeddus sy'n addas i wirfoddolwyr o grwpiau defnyddwyr a grwpiau cleientiaid ymgymeryd â hwy dan oruchwyliaeth Parcmyn Awdurdod Parc Cenedlaethol a swyddogion y Cyngor Sir.
E4	Annog cynghorau tref a chymuned i wneud cyfraniadau ariannol i gynnal a chadw a gwella hawliau tramwy cyhoeddus. Gellid cyflawni hyn drwy godi eu praesept eu hunain, ceisio cyllid allanol megis Cronfa Gwella Sir Benfro a'r awdurdodau lleol yn cyfateb eu cyfraniadau.

2.3.6. **Amcan F** - i hyrwyddo a darparu gwybodaeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o'r cyfleoedd mynediad i gefn gwlad a ddarperir gan lwybrau cyhoeddus a thir mynediad.

F1	Darparu gwybodaeth
a)	Creu a diweddarau map o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau caniataol a thir mynediad yn Sir Benfro yn gyson ar y wefan, gan nodi cyflwr hygyrchedd hawliau tramwy cyhoeddus o ran eu dosbarthiad priodol.
b)	Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a grwpiau defnyddwyr, cynhyrchu ystod o daflenni canllaw digidol ar gyfer teithiau cerdded, yn rhoi disgrifiadau a ffotograffau o'r llwybrau, er mwyn hyrwyddo'r rhwydweithiau o lwybrau lleol sy'n agos at aneddiadau a chanolfannau sy'n darparu llety i dwristiaid. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am lwybrau beicio a marchogaeth.
c)	Adolygu a diweddarau'r cyhoeddiad <i>Teithiau Cerdded i Bawb</i> er mwyn hyrwyddo ystod o gyfleoedd mynediad ledled y sir sy'n addas ar gyfer pobl sydd â symudedd cyfyngedig a defnyddwyr cadair olwyn.
d)	Darparu arwyddion pellter a chyrchfan a mapiau braslun ar lwybrau penodol.
e)	Darparu arwyddion gydag URLau a chodau QR er mwyn galluogi lawrlwytho gwybodaeth ddigidol am y teithiau cerdded.
f)	Darparu gwybodaeth am gyfleoedd cerdded mewn meddygfeydd a chyfleusterau gofal iechyd eraill, gyda'r nod o hyrwyddo cerdded ymhlith y rhai sy'n debygol o fanteisio fwyaf o well iechyd a lles o ganlyniad i gerdded.
F2	Hyrwyddo ac Ymgysylltu
a)	Ehangu gwaith partneriaeth 'Dewch i Gerdded' Sir Benfro a menter 'Walkability' gydag adnoddau ychwanegol er mwyn hyrwyddo cerdded fel gweithgaredd allweddol ar gyfer gwella iechyd a lles i bawb ac annog pobl i wneud cerdded rheolaidd yn rhan o'u bywydau bob dydd yn ogystal ag ar gyfer hamdden.
b)	Trwy gyfuniad o wirfoddolwyr a swyddogion, cynnig cyfres o deithiau tywys i gymunedau er mwyn gwneud y trigolion yn gyfarwydd â'u rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus lleol.

c)	Gweithio i hyrwyddo cyfleoedd mynediad i gefn gwlad yn y cyfryngau gan gynnwys papurau newydd a chyhoeddiadau lleol, radio lleol a chyfryngau cymdeithasol.
d)	Hyrwyddo cyfleoedd mynediad i gefn gwlad fel rhan o waith yr awdurdodau lleol a pharhau i hyrwyddo Sir Benfro fel cyrchfan i dwristiaid, gan bwysleisio'r cyfleoedd hamdden a ddaw yn sgil y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.
F3	Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r angen i ymddwyn yn gyfrifol wrth ymweld â chefn gwlad.
a)	Cymryd bob cyfle i hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad a'r defnydd priodol a chyfrifol o hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad.
b)	Hyrwyddo Cod Ymddygiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol ledled y sir.
c)	Darparu arwyddion yn hyrwyddo rheoli cŵn yn gyfrifol ar hawliau tramwy cyhoeddus a'r angen i waredu baw cŵn yn gyfrifol. Cyfeirio meysydd problemus at y gwasanaeth warden cŵn ar gyfer patrolau gorfodi.

2.4 Cynllun Cyflawni'r CGHT

2.4.1 Yn ogystal â'r datganiad gweithredu, mae canllawiau statudol LICC yn gofyn am gynllun cyflawni blynyddol er mwyn sicrhau nad yw'r datganiad gweithredu yn mynd yn hen gydag amser a'i fod yn fwy hyblyg ac ymatebol yn ystod ei gyfnod o 10 mlynedd.

2.4.2 Y cynllun cyflawni fydd y prif ddull o fonitro a gwerthuso'r cynllun.

2.4.3 Bydd tair rhan i'r cynllun cyflawni. Bydd y cyntaf yn werthusiad o gyflawniad y CGHT hyd yn hyn, gan gynnwys y cynllun(iau) gweithredu blaenorol. Bydd yr ail yn adolygiad o bolisiâu a rheolaeth HTCau gyfredol yr awdurdodau. Bydd y trydydd yn gynllun gwaith CAMPUS ar gyfer gweithredu'r camau sydd ym mhob amcan. Acronym am **C**yraeddadwy, **A**mserfol, **M**esuradwy, **P**enodol, **U**chelgeisiol, **S**ynhwyrol yw CAMPUS.

2.4.4 Bydd y gwerthusiad yn ystyried i ba raddau mae:

- y cynllun cyflenwi blaenorol wedi'i gyflawni;
- budd i'r cyhoedd o ganlyniad i waith/prosiectau a ddatblygwyd/gwblhawyd;
- yr amcanion yn y datganiad gweithredu wedi eu cyflawni yn ystod pob blwyddyn ddilynol y CGHT2.

2.4.5. Bydd yr adolygiad o bolisi HTCau yn cynnwys:

- cynnal a chadw, gwella a gorfodi HTCau;
- rheoli'r Map a Datganiad Diffiniol;
- awdurdodi a chofnodi cyfyngiadau;
- y weithdrefn ar gyfer gwneud newidiadau i'r rhwydwaith megis dargyfeirio, dileu a chreu HTCau newydd.

Yn ogystal â'r adolygiad o'r polisïau a gynhwysir yn y cynllun cyflawni, bydd dogfen unigol ar gael ar-lein hefyd sy'n nodi'r polisi HTCau cyfredol.

2.4.6. Bydd y cynllun gwaith CAMPUS yn cynnwys:

- disgrifiad penodol o'r canlyniad (e.e. y llwybr a ddewiswyd ar gyfer ei wella);
- sut y bydd y canlyniad penodol yn cael ei fesur, ei fonitro ac adrodd am y cynnydd;
- yr adnoddau sydd eu hangen a'r adnoddau sydd ar gael;
- pwy fydd yn cyflawni'r prosiect ac unrhyw bartneriaid allweddol;
- yr amcanion datganiad gweithredu a gyflawnir;
- yr amserlen.

Bydd y cynlluniau CAMPUS yn defnyddio'r arferion presennol a ddefnyddir mewn rhaglenni gwaith blynyddol, a dylid eu cynnwys yn y cynllun CAMPUS. Dylai'r cynlluniau hyn hefyd nodi unrhyw brosiect sy'n cyfrannu at ddeddfwriaeth; Teithio Llesol, Cynlluniau Llesiant a Datganiadau Ardal yn benodol.

2.4.7 Mae'r prosiectau CGHT2 yn debygol o ddibynnu ar raglenni ariannu newydd yn hytrach nag arian grant fel y CGHT gwreiddiol. Bydd y cynllun cyflawni felly'n cael ei gynhyrchu mewn modd fydd o gymorth wrth wneud cynigion am gyllid i ariannu amcanion CGHT2.

2.4.8 Bydd y cynllun cyflawni cyntaf yn cael ei gyhoeddi ar y we yr un pryd ag y bydd CGHT2 yn dod yn weithredol, sy'n debygol o fod fis Ebrill 2019. Bydd y cynllun cyflawni cyntaf yn cynnwys manylion y prosiectau a weithredwyd rhwng 01/04/19 a 31/03/20. Ni fydd y cynllun cyntaf yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd gan y bydd yr asesiadau a wnaed yn CGHT2 yn sail i'r cynllun cychwynnol hwn.

2.4.9 Bydd pob cynllun cyflenwi wedi hynny yn dilyn y flwyddyn ariannol sydd hefyd yn debygol o fod yn flwyddyn ariannol ar gyfer gwneud cynigion am gyllid. Os bydd y broses gynnig yn dechrau ar adeg wahanol o'r flwyddyn, bydd y cynllun cyflawni yn cael ei gyhoeddi yn unol â hynny. Gellir rhoi cyhoeddusrwydd i adnewyddu'r Cynllun Cyflawni ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

2.4.10 Bydd y broses cynllun cyflawni yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am brosiectau cyfredol, ac yn sicrhau bod cyflawniad CGHT2 yn addasu yn ystod cyfnod 10 mlynedd y cynllun.

2.4.11 Pan fydd CGHT2 yn cael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod, gellir defnyddio'r cynlluniau cyflawni fel ffynhonnell o wybodaeth a chyfeirio atynt wrth werthuso perfformiad y cynllun.

Geirfa

APCAP	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol (Mae gan y Cyngor Sir a'r Parc Cenedlaethol Gynlluniau Datblygu Lleol ar wahân).
CGHT	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro 2008 i 2018
CGHT2	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro 2018 i 2028
Cilffordd Gyfyngedig	Hawl tramwy cyhoeddus ar droed, ar gefn ceffyl ac ar gyfer cerbydau eraill na yrrir yn fecanyddol (cerbydau wedi'u tynnu gan geffyl). Fe'u dosbarthwyd fel Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus (RUPP) yn y gorffennol.
CABT	Cilffyrdd Ar Agor i Bob Traffig. Hawl tramwy cyhoeddus ar agor i bob math o ddefnyddiwr, gan gynnwys cerbydau wedi'u tynnu gan geffyl a cherbydau modur. Fodd bynnag, maent yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer yr un dibenion â llwybrau troed a llwybrau ceffylau.
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CSP	Cyngor Sir Penfro
Cytundebau Adran106	Caiff y cytundebau hyn eu creu weithiau pan fydd caniatâd cynllunio yn cael ei ddyfarnu. Mae hyn fel arfer yn digwydd pan fo angen gwrthbwysio effaith andwyol ar amwynder cyhoeddus. O ran HTC, gellid gwneud cytundebau o'r fath pan fo angen cyfalaf sylweddol er mwyn dargyfeirio llwybr troed ar gyfer datblygiad newydd.
Datganiad Ardal	Mae'r rhain yn ardaloedd ledled Cymru ble mae angen gweithredu Polisi Adnoddau Naturiol. Nod y polisiâu hyn yw cynnal a gwella cadernid yr ecosystemau er mwyn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.
Deddf CroW	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, 2000
Dewis Lleiaf Rhwystrol	Y dewis sy'n sicrhau mynediad ar gyfer yr ystod ehangaf o ddefnyddwyr.
FfMLI	Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro
GDMD (DMMO)	Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol
Hawliau Uwch	Hawliau tramwy ehangach na'r rhai sy'n gyfyngedig i ddynodiad cyfreithiol yr hawl tramwy cyhoeddus, a ddefnyddir yn aml pan fydd beicio a/neu farchogaeth yn cael eu cyflwyno ar lwybrau troed.
HTC/au	Hawl/iau Tramwy Cyhoeddus
LIC	Llywodraeth Cymru
Llwybr Caniataol	Nid yw hwn yn hawl tramwy cyhoeddus cofrestredig ond yn hytrach mae'n llwybr lle mae tiffeddiannwr yn caniatáu mynediad i'r cyhoedd ar eu tir ar sail anffurfiol neu ffurfiol. Gall caniatâd fod yn dymhorol, a gall gael ei dynnu'n ôl neu ei atal dros dro yn ôl disgrisiwn y tiffeddiannwr. Gall llwybrau caniataol ddarparu llwybrau ychwanegol a chaniatáu hawliau uwch, er enghraifft lle mae tiffeddiannwr yn caniatáu hawliau uwch er mwyn marchogaeth ar lwybr troed cyhoeddus.

Llwybr Ceffylau	Hawl tramwy cyhoeddus lle mae hawl i dramwyo ar droed, ar feic a marchogaeth neu arwain ceffyl.
Llwybr Defnydd a Rennir (SUP)	Defnyddir y term hwn gan Adran Drafnidiaeth CSP, ac mae'n cyfeirio at lwybrau pwrpasol, sy'n aml ar hyd ymyl y ffyrdd, a rennir gan feicwyr a cherddwyr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r llwybrau hyn wedi ymestyn i gefn gwlad ac wedi darparu dull o fynediad mwy diogel na llain werdd y briffordd.
Llwybr Troed	Hawl tramwy cyhoeddus lle mae hawl i dramwyo ar droed yn unig. Nid yw hyn yn cynnwys palmentydd a llwybrau troed sy'n rhedeg wrth ymyl y briffordd.
Llwybrau ar gael i feicwyr	Llwybrau eraill nad ydynt wedi'u dynodi fel hawliau tramwy cyhoeddus sy'n cael eu rheoli ar gyfer eu defnyddio gan feicwyr.
PC	Parc Cenedlaethol

Atodiad A - Asesiadau CGHT a Dogfennau Cefndirol

Asesiad A CGHT2	Effaith deddfwriaeth ar HTCau
Asesiad B CGHT2	Arolygiad o gynlluniau a strategaethau perthnasol
Asesiad C CGHT2	Asesiad o gyflwr ffisegol y rhwydwaith
Asesiad D CGHT2	Asesiad o sefyllfa gyfreithiol y rhwydwaith
Asesiad E CGHT2	Adolygiad o'r CGHT blaenorol
Asesiad F CGHT2	Adolygiad o'r ymchwil a gynhaliwyd eisoes
Asesiad G CGHT2	Ymgynghoriadau a wnaed gyda'r FfMLI yn ystod y broses o adolygu ac ymgynghori
Asesiad H CGHT2	Cyfarfod â Swyddog Mynediad CSP ac ysgrifennydd Grŵp Mynediad Sir Benfro
Asesiad I CGHT2	Adborth gan randdeiliaid ynglŷn â'r CGHT gwreiddiol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol
Asesiad J CGHT2	Asesiad Effaith Integredig
Asesiad K CGHT2	Asesiad Amgylcheddol Strategol
Dogfen Gefndirol I y CGHT	Asesiad Lles ar gyfer Sir Benfro (Ebrill 2017) Cynllun Lles ar gyfer Sir Benfro (Mai 2018)
Dogfen Gefndirol II y CGHT	Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (Tachwedd 2016)
Dogfen Gefndirol III y CGHT	Cynllun Datblygu Lleol Cynllunio Dyfodol Sir Benfro (Chwefror 2013).
Dogfen Gefndirol IV y CGHT	Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Medi 2010)
Dogfen Gefndirol V y CGHT	Adolygiad o'r CGHT blaenorol
Dogfen Gefndirol VI y CGHT	Adroddiad Arolwg Defnyddwyr Llwybr Gwledig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015-2016 (Ionawr 2017)
Dogfen Gefndirol VII y CGHT	Adroddiad Arolwg Hamdden ar gyfer Mynediad i'r Anabl yn Sir Benfro (Mai 2016)

Dogfen Gefndirol VIII y CGHT	Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2016: Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2015)
Dogfen Gefndirol IX y CGHT	Llwybr Arfordir Cymru CNC 2017
Dogfen Gefndirol IX y CGHT	Cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor a Phwyllgor Llawn y FfMLI
Dogfen Gefndirol X y CGHT	Cyfarfod â Swyddog Mynediad CSP/Ysgrifennydd Grŵp Mynediad Sir Benfro
Dogfen Gefndirol XI y CGHT	Ymatebion llawn o'r Ymgynghoriad Cychwynnol
Dogfen Gefndirol XII y CGHT	Ymatebion llawn o'r Ymgynghoriad Ffurfiol
Dogfen Gefndirol XIII y CGHT	Adroddiad Ymgynghori Drafft ar CGHT

Atodiad B – Amcanion CGHT1

Amcan A – i gynnal rhwydwaith hygyrch o lwybrau cyhoeddus

Amcan B – i ddarparu rhwydwaith mwy cysylltiedig sy'n diwallu angenion pob un o'r defnyddwyr

Amcan C – i ddarparu rhwydwaith o lwybrau mwy diogel

Amcan D – i ddarparu map cyfoes, digidol

Amcan E – i gynyddu cyfranogiad y gymuned, grwpiau defnyddwyr a gwirfoddolwyr wrth wella a rheoli llwybrau cyhoeddus;

Amcan F – i wella hyrwyddiad, dealltwriaeth a'r defnydd o'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus